# Y DINESYDD

Tachwedd 2023 Papur Pobl Caerdydd a'r Fro Rhif 482 £1.20



**Caerdydd: 'Dinas sy'n Dda i Blant' (UNICEF) (Llun: Nick Treharne)** tud. 15



**Côr Caerdydd ym Mhorthgain** tud. 6



**Gwirfoddolwyr yn cynorthwyo i adeiladu wal cerrig sychion. Ble?** tud. 8

# Y DINESYDD

**Golygydd:**
**Alun Treharne**

***Golygydd Rhagfyr / Ionawr***
***John Emyr***

Cyfraniadau erbyn **27 Tachwedd** at:
john.emyr@hotmail.com
029 20848545

Y Digwyddiadur:
Yr Athro E Wyn James
JamesEW@caerdydd.ac.uk
16 Kelston Road, Caerdydd, CF14 2AJ
029 20628754

Hysbysebion:
Iestyn Davies
iestynd@gmail.com
15 Birchfield Crescent, Parc Victoria,
Caerdydd, CF5 1AE
07876 068498

Tanysgrifiadau:
Gwilym Dafydd (dros dro)
eirianagwilym@gmail.com
4 Coryton Rise, Yr Eglwys Newydd,
Caerdydd, CF14 7EJ
029 20657108

Prif Ddosbarthwr:
Arthur Evans
Yr Eglwys Newydd.
aloevans@icloud.com
029 20623628

**www.dinesydd.cymru**
Cyhoeddir gan Bwyllgor y Dinesydd.
Nodir hawl y golygyddion i gwtogi
ar erthyglau yn ôl y gofyn.

Argraffwyr:
Serol Print, Castell-nedd
Cysodydd: Dr Eirian Dafydd

Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru

Y Cyfryngau Cymdeithasol
Twitter: @DinesyddCdydd
Facebook:
www.facebook.com/YDinesydd


## Colofn Difyrion Digidol

***Deian ap Rhisiart***

Ymhlith y cyfoeth celfyddydol a diwylliannol sydd ar blatfform Ambobdim, mae cyfres *Yr Hen Iaith* sydd wedi'i darlledu ers rhai misoedd ar https://amam.cymru/yr-hen-iaith Mae'r gyfres yn gyflwyniad hwyliog i hanes llenyddiaeth Gymraeg, gyda'r ysgolhaig o Brifysgol Bangor, Jerry Hunter, hogyn o'r Midwest yn America, yn dysgu'r Athro Richard Wyn Jones o Brifysgol Caerdydd, hogyn o Sir Fôn, am drysorau ei iaith ei hun.

Mae cyfres o bodlediadau diddorol fel hyn yn ffordd effeithiol o annog pobl i ddefnyddio technoleg, gan danio'r dychymyg, ac mae cyfres *Yr Hen Iaith* yn bendant am ddenu pobl o bob oed i wybod mwy am gyfoeth ein llenyddiaeth, gyda'r wybodaeth honno wedi'i chyflwyno trwy drafodaeth ysgafn, doniol, addysgiadol a difyr. Mae'n wych gweld y dechnoleg ddiweddaraf yn cael ei defnyddio i ddadansoddi ein llenyddiaeth hynaf.

Mae'r stori yn dechrau yn y dechreuad gyda'r Gododdin. Yn y bennod gyntaf trafodir cerdd (neu'r casgliad o gerddi cysylltiedig) a briodolir i'r bardd Aneirin, gan archwilio dadleuon sy'n cefnogi – ac sy'n herio – y gred gyffredin mai'r farddoniaeth hon yw'r testun llenyddol Cymraeg cynharaf sydd wedi goroesi. Yn yr ail bennod, maent yn trafod dwy o'r llawysgrifau cynharaf yn y Gymraeg – Llyfr Du Caerfyrddin a Llyfr Taliesin.

Symudir ymlaen i chwedlau'r Mabinogi – y Bedair Cainc, sef Chwedl Branwen, Manawydan Pwyll Pendefig Dyfed a Math fab Mathonwy. Pwy oedd awdur y chwedlau ac ym mha gyd-destun y mae'r straeon hyn yn gorwedd yn hanesyddol ac yn gymdeithasol?  Ceir cyflwyniad cyflawn gan Jerry Hunter i'r straeon a'u prif gymeriadau fel y cawr Bendigeidfran. Yn ddiddorol, mae Jerry yn tynnu sylw at bwysigrwydd y Môr Celtaidd o fewn y chwedlau hyn yn ganolbwynt i bob dim cyn dyfodiad y Rhufeiniaid a'r Eingl-Sacsoniaid,  a phan oedd y Celtiaid yn tra-arglwyddiaethu ar Ynys Prydain.

Cwestiwn sydd hefyd yn cael ei ofyn yw 'Wyt ti'n cofio Macsen?' - cymeriad sydd wedi cael ei anfarwoli yng nghân adnabyddus Dafydd Iwan – 'Yma o Hyd'. Mae Macsen yn rhan ganolog o stori Breuddwyd Macsen sydd wedi'i seilio yn 'hanesyddol' ar Ymerawdwr Rhufeinig, Magnus Maximus, neu dad y Genedl Gymreig, yn ôl Gwynfor Evans, sy'n cael ei ddenu i Gaernarfon gan dywysoges brydferth o'r new Helen neu Elen. Wedyn mewn penodau eraill mae'r ddau yn mynd ymlaen i drafod Beirdd y Tywysogion, ac yn yn y bedwaredd ganrif ar ddeg, y bardd mwyaf adnabyddus – Dafydd ap Gwilym.

Ewch i YPod (https://ypod.cymru/)  neu os am gymorth i ddatrys problem ddigidol, mae croeso i chi gysylltu â mi deian.apRhisiart@cwmpas.coop

## Siopau lle gwerthir *Y Dinesydd*

**CABAN**, Pontcanna
**CAFFI BLOC**, Parc Fictoria
**CAFFI FFLOC**, Heol Ddwyreiniol y Bontfaen
**CANT A MIL**, 100 Whitchurch Rd.
**DERI STORES**, Rhiwbeina
**GRIFFIN BOOKS**, Penarth
**PAPERWEIGHT**, 22 Wellfield Road
**SIOP FACH CAERDYDD**, Arcêd y Castell
**Y FELIN**, Yr Eglwys Newydd
**VICTORIA FEARN GALLERY,** Rhiwbeina

# Colofn G.R.



*"Yn anffodus, fydd y Nadolig ddim yn gyfnod hapus i filiynau o bobl mewn llefydd fel Yemen, Wcráin, Gaza ac Israel"*

Helo bawb! Wele fi unwaith eto yn sgrifennu hyn o golofn gan obeithio eich bod yn mwynhau'r cynnwys o fis i fis! Gobeithio hefyd eich bod yn cadw'n iach gan fod y Cofid felltith yn dal yn y tir a nifer o bobl wedi ei ddal - rhai am yr ail dro! Ta waeth am hynny, mae hi'n fis Tachwedd bellach, sef y mis mwyaf diflas yn fy ngolwg i gan fod y nosweithiau yn hir a'r dyddiau yn fyr a'r tywydd yn ddigon i godi'r felan ar rywun!

Erbyn i chi ddarllen hyn o golofn bydd holl firi dathlu Calan Gaeaf a Guto Ffowc wedi pasio diolch byth a rwan dan ni'n gallu canolbwyntio at baratoi i fwynhau'r Nadolig! Yn anffodus, fydd hi ddim yn gyfnod hapus i filiynau o bobl mewn llefydd fel Yemen, Wcráin, Gaza ac Israel ac ati sy'n dioddef mor enbyd ynghanol rhyfeloedd, a'r dyfodol mor ansicr a phryderus yn eu hanes. Bydd apelau am gymorth gan wahanol elusennau yn llifo drwy ein drysau o ganlyniad i'r holl ddioddef yn y byd ac er bod pob apêl yn haeddu cefnogaeth bydd angen dethol a dewis pa apelau i'w cefnogi gwaetha'r modd.

Y tymor hwn dim ond tua dwsin o ddisgyblion sy ar ôl yn Ysgol Gymraeg Llundain gan fod nifer o deuluoedd wedi dychwelyd i fyw yng Nghymru a nifer o ddisgyblion wedi gadael i fynychu ysgolion uwchradd yn y ddinas. Mae hi'n argyfwng ar yr ysgol ar hyn o bryd ond mae'r corff sy'n gyfrifol am yr ysgol yn benderfynol o gadw'r drysau ar agor gan obeithio y daw haul ar fryn eto yn hanes yr ysgol. Ar un adeg Ysgol Gymraeg Llundain odd yr unig ysgol Gymraeg yn y byd y tu allan i Gymru cyn agor tair ysgol Gymraeg yn y Wladfa, sef dwy yn Nyffryn Camwy ac un yn yr Andes, ac mae'r tair ysgol yn ffynnu hefo cannoedd o blant yn cael eu trwytho yn y Gymraeg.

Ddiwedd mis Hydref cynhaliwyd Eisteddfod y Wladfa yn Nhrelew hefo cannoedd yn ei mynychu, gan gynnwys dros gant o Gymry o'r 'Hen Wlad'. Felly odd Trelew yn fôr o Gymraeg dros gyfnod yr Eisteddfod! Erbyn hyn mae'n syndod faint o Gymry sy'n ymweld â'r Wladfa o dro i dro a phawb sy wedi ymweld yn tystio i'r croeso cynnes.

Erbyn hyn mae'r Post Brenhinol wedi cyhoeddi deuddeg stamp arbennig i ddathlu saith deg mlynedd ers i'r Fonesig Shirley Bassey ddechrau ar ei gyrfa hynod o lwyddiannus fel cantores. Yn ôl yr hanes bu Enid Jones Davies, modryb Dafydd Iwan, yn dysgu ychydig o Gymraeg iddi mewn ysgol yn ei hardal enedigol! Trueni na welodd y Post Brenhinol yn dda i gyhoeddi stamp arbennig yn 2015 pan odd y Wladfa yn dathlu 150 o flynyddoedd ers ei sefydlu nôl yn 1865. Byddai llun o long y *Mimosa* a gludodd y Cymry draw i Batagonia yn y lle cyntaf wedi bod yn dderbyniol iawn!

Yn ystod y misoedd diwethaf dathlodd Dafydd Iwan a Max Boyce eu pen-blwyddi yn bedwar ugain oed ac mae'r ddau yn dal i ganu a diddanu y cannoedd os nad y miloedd sy'n tyrru i wrando arnyn nhw ble bynnag maen nhw'n ymddangos. Ym mis Hydref anrhydeddwyd Max drwy godi cerflun ohono yn ei bentre genedigol yng Nglyn-nedd gan y cerflunydd lleol Rubin Eynon, a'i ddadorchuddio gan ein Prif Weinidog, Mark Drakeford. Daeth cannoedd ynghyd i'r seremoni ym milltir sgwâr y gwron ac mae o'n dal i fyw yno er gwaethaf ei enwogrwydd.

Mae'r Cymry wrth eu boddau yn hel yn eu boliau ac mae'r holl raglenni am goginio ar y teledu yn denu miloedd i'w gwylio. Ym mis Medi dyma'r Cymro Wynne Evans, y canwr a'r diddanwr sy'n byw yn yr Eglwys Newydd bellach, yn ennill Cystadleuaeth *BBC Celebrity MasterChef 2023* ar y teledu. Llongyfarchiadau gwresog iddo fe ar ei gamp! Daw Wynne o Gaerfyrddin yn wreiddiol ac mae o wedi dysgu Cymraeg, fel Mark Drakeford sy hefyd yn dod o Gaerfyrddin!

Mae holl gyffro Cystadleuaeth Cwpan Rygbi'r Byd yn Ffrainc wedi ein diddanu am wythnosau lawer a chwarae teg i dîm Cymru - mi lwyddwyd i gyrraedd y chwarteri cyn colli i'r Ariannin. Ond wrth feddwl am sut siâp odd ar ein tîm nôl ar ddechrau'r flwyddyn pan bu bron i'r tîm dderbyn y llwy bren yng Nghystadleuaeth y Chwe Gwlad, datblygon nhw'n rhyfeddol ar ôl hynny dan law medrus a chraff Warren Gatland a llwyddo wedyn i gyrraedd y chwarteri yn Ffrainc o ganlyniad.

Ond mae tîm pêl-droed Cymru ar i fyny ar hyn o bryd ar ôl curo Croatia yn Stadiwm Pêl-droed Caerdydd yn eu hymdrech i gyrraedd yr *Euros* yn yr Almaen y flwyddyn nesa. Fel arfer odd canu ein Hanthem Genedlaethol gan y dorf yn y gêm yn wefreiddiol ac yn siŵr o fod yn hwb i'r tîm ac yn ystod y gêm clywyd 'Yma o Hyd' gan y dorf, tra yn Ffrainc clywyd y dorf yn canu 'Hymns and Arias' Max Boyce! Bydd rhaid i Gymru guro Armenia a Thwrci rwan os ydyn nhw am gyrraedd yr *Euros* ar eu hunion ac felly pob lwc iddyn nhw a dwy'n siŵr bydd 'y Wal Goch' yn eu cannoedd, os nad eu miloedd, yn eu hannog ymlaen. Felly, amdani hogia!

**Cadwch mewn cysylltiad â'r *Dinesydd***
**ar X / Twitter drwy ddilyn ein cyfrif @DinesyddCdydd**
**ac ar Facebook drwy ddilyn www.facebook.com/YDinesydd**

# Merched y Wawr Caerdydd

Yng nghyfarfod mis Hydref, daeth Kirran Lochhead Strang, Swyddog Brysbennu ac Integreiddio yng nghanolfan Oasis Caerdydd, atom i egluro sefyllfa'r ceiswyr lloches yn y ddinas. Magwyd Kirran yn ardal Tregaron ac mae'n gweithio yn Oasis ers pedair blynedd. Prif nod Oasis yw helpu ffoaduriaid a cheiswyr lloches i ymsefydlu yn eu cymuned leol. Yn eu hadeilad pwrpasol yn Heol Sblott, maent yn cynnig gweithgareddau, dosbarthiadau a chymorth i 150 o ymwelwyr bob dydd. Rhedir y ganolfan gan dîm ymroddgar o staff a gwirfoddolwyr, ac fel elusen maent yn ddibynnol ar roddion a chyfraniadau.

Eglurodd Kirran y llwybr mae'n rhaid i geiswyr lloches ei ddilyn wrth geisio statws ffoaduriaid. Yn gyntaf rhaid mynychu cyfweliad sgrinio, ac yna cyfweliad trylwyr iawn i sicrhau dilysrwydd eu cais. Wedyn rhaid aros am y penderfyniad – gall y broses bara rhwng chwe mis a blynyddoedd. Yn y cyfnod hwn, mae gan bob ceisiwr hawl i lety, gofal iechyd, a £47.39 yr wythnos i'w cynnal eu hunain. Os gwrthodir y cais, daw eu cymorth i ben. Mae dros 175,000 yn aros am benderfyniad ar hyn o bryd. Os yw'r cais yn llwyddiannus, mae'r holl gymorth yn terfynu ac yn aml bydd ffoaduriaid yn dod yn ddigartref wrth chwilio am waith.



***Kirran Lochhead Strang, Oasis***

Dyma pam mae rôl Oasis mor bwysig – gall pobl deimlo'n gwbl ynysig mewn trefi anghyfarwydd. Mae cyfle iddynt gymdeithasu, derbyn cymorth, ymuno â gweithgareddau, gwirfoddoli a dysgu iaith (Cymraeg neu Saesneg). Mae Joseff Gnagbo, llywydd newydd Cymdeithas yr Iaith, yn ffoadur gwleidyddol o Côte d'Ivoire. Pan ymgartrefodd yng Nghymru yn 2018 dysgodd ein hiaith a bellach mae'n darparu gwersi Cymraeg i geiswyr lloches yng Nghaerdydd. Am stori lwyddiant!

Diolch yn fawr i Kirran am egluro sefyllfa'r ceiswyr lloches a'r ffoaduriaid yn ein dinas a dangos pa mor werthfawr yw Oasis Caerdydd wrth helpu'r anffodusion hyn.

*Joy Davies*

# Cymrodorion Caerdydd

Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf Cymrodorion Caerdydd ar nos Wener 6ed o Hydref yn festri Capel Salem, Treganna. Daeth nifer dda ynghyd yn ogystal â rhai a ymunodd trwy gyfrwng *Zoom* i weld y Llywydd newydd yn cael ei anrhydeddu. Cyflwynodd y Cyn-lywydd Rheinallt Thomas y llywyddiaeth a'r gadwyn i'r Llywydd newydd, sef E.Gwynn Matthews, a aeth yn ei flaen i gyflwyno'i destun.

A hithau'n drichanmlwyddiant ei eni eleni, dewisodd Gwynn drafod yr athronydd Richard Price 1723-1791, a aned yn Llangeinwyr ger Pen-y-bont ar Ogwr. Richard Price yn sicr yw'r enwocaf o athronwyr Cymru, a hynny yn bennaf oherwydd y dylanwad mawr a gafodd ei syniadau gwleidyddol ar arweinwyr y Chwyldro Americanaidd a'r Chwyldro Ffrengig.

Wedi rhoi braslun i ni o yrfa Price, fel gweinidog ymneilltuol, mathemategydd ac athronydd, ac enwi rhai o'r anrhydeddau mawr a dderbyniodd, aeth Gwynn ymlaen i drafod gwaith olaf Price, *Ar Garu ein Gwlad.*



***Rheinallt Thomas (Cyn-lywydd) yn trosglwyddo'r llywyddiaeth a'r gadwyn i E. Gwynn Matthews***

Gochelgar iawn oedd Price wrth drafod gwladgarwch. Rhybuddiodd y gall gwladgarwch ddeillio o falchder anheilwng ac arwain at ddirmygu gwledydd eraill. Tynnodd sylw hefyd at y ffaith na fu i 'sylfaenydd ein ffydd' gymeradwyo gwladgarwch, eithr yn hytrach annog cariad at y ddynoliaeth yn gyffredinol. Serch hynny, meddai Price, plannnodd ein Crëwr hoffter ynom tuag at y rhai y mae gennym ddyletswydd arbennig tuag atynt, a dyma egin gwladgarwch rhinweddol.

Gwnaeth Gwynn y pwynt mai cyfiawnder dinesig oedd prif ddiddordeb Price. Ni welwyd ond y mymryn lleiaf o gyfeirio at hawliau ethnig ganddo, efallai oherwydd mai drwy gyfrwng y wladwriaeth yn y pen draw, mae sicrhau iawnderau dynol.

Cafwyd cwestiynau o'r llawr a mynegwyd gan lawer y ffaith nad oeddent yn ymwybodol o ba mor ddylanwadol a phellgyrhaeddol fu gwaith Richard Price. Diolchwyd i Gwynn am ei ddarlith dreiddgar a diddorol gan Rheinallt ac edrychwn ymlaen at y cyfarfodydd nesaf a fydd ar *Zoom* yn unig.

10 Tachwedd: Catrin Stevens, *'Ewyllys Unedig Merched yn erbyn Rhyfel', Apêl Merched Cymru at Ferched America 1923-24.*

1 Rhagfyr: Arfon Gwilym a Sioned Bebb, *Seiniwn Hosanna a'r Plygain.*

I ymaelodi neu ymuno mewn cyfarfod unigol ar *Zoom* anfoner at y Trysorydd, Alwyn Evans (cymrodorioncaerdydd@gmail.com)

# Colofn Natur

## *Tymor y Ffwng*



**Gethin Jenkins-Jones**

Dros y blynyddoedd diwethaf rydw i wedi cael llawer o hapusrwydd wrth ehangu fy niddordeb ym myd natur i gwmpasu nifer cynyddol o grwpiau o rywogaethau. Yn adarwr ar hyd fy mhlentyndod, dechreuodd fy niddordeb mewn pilipalod a gwyfynod yn bymtheg oed, gwenyn yn ddeunaw oed, pysgod yn ugain, cyn cychwyn efo coed a phlanhigion tua blwyddyn yn ôl.

Y flwyddyn hon, dwi wedi cychwyn efo teyrnas y ffwng, diolch yn bennaf i weithio efo pobl a wnaeth fy ysbrydoli i gymryd diddordeb ynddynt. I gymharu efo adar, nid yw ffyngau yn derbyn gymaint o sylw. Gallaf yn sicr weld pam eu bod yn heriol iawn i allu arbenigo arnynt - mae o leiaf 12,000 o rywogaethau ym Mhrydain, a dros 2,000 ohonynt yn creu madarch. Mae llawer yn edrych yn debyg iawn hefyd, efo rhai ond yn medru cael eu hadnabod yn gywir efo microsgop. Ond mae ffwng yn grŵp hynod o ddiddorol: mae rhai yn hardd iawn, ac maent yn andros o bwysig er lles dyn, felly maent yn haeddu sylw yn fy marn i. A nawr bod yr hydref wedi cychwyn, nid oes amser gwell o'r flwyddyn i fynd allan i ardaloedd gwyrdd Caerdydd i fwynhau eu gweld.





Mae'n sicr yn rhesymol meddwl bod ffyngau yn perthyn yn fwy agos at blanhigion nag at anifeiliaid - yn enwedig wrth weld madarch yn tyfu o'r ddaear yn union fel mae ein coed a'n blodau yn gwneud. Ond yn enynnol maent yn fwy tebyg i ni nag i unrhyw goeden dderw neu gennin Pedr (er bod dros 1.5 biliwn o flynyddoedd wedi mynd heibio ers i ffyngau ac anifeiliaid wahanu!) Yn wahanol i blanhigion, nid yw ffyngau yn gallu creu eu bwyd eu hunain drwy ffotosynthesis, felly maent yn hollol ddibynnol ar fwyd sydd eisoes ar gael. Wrth i chi fynd am dro o gwmpas unrhyw ardal werdd yng Nghaerdydd, bydd y ffyngau y byddwch yn eu gweld yn perthyn i un o ddau grŵp. Mae un grŵp - y saproffytau - yn ddibynnol ar ddeunydd marw, fel coed sydd wedi syrthio. Mae'r llall - y grŵp mycorhisol - yn ddibynnol ar symbiosis efo coed a phlanhigion i gael y maeth i fyw. Mae'r rhain yn enwedig o ddiddorol yn fy marn i. Mae'r ffwng yma yn byw ar ymyl gwreiddiau'r coed, yn aml ar lefel microsgopig, a byddant yn rhoi maetholion i'r gwreiddiau o'r pridd (a fydd yn anodd i'r coed eu derbyn heb gymorth y ffyngau) os bydd y coed yna'n hapus i ddarparu ychydig o'r siwgrau a grëwyd gan ffotosynthesis fel gwobr i'r ffyngau. Gall y rhwydweithiau yma o ffyngau yn y pridd fod yn hynod o fawr hefyd, gan gwmpasu sawl coeden, a byddant yn helpu coed gwan a sâl gan ddarparu adnoddau o goed iach. Byddai ein holl ecosystemau yn wahanol iawn heb ffyngau!

Bydd y rhan fwyaf ohonoch yn gwybod bod madarch yn enwedig yn fwy cyffredin ym misoedd yr hydref nag ar adegau eraill y flwyddyn. Pam felly? Wel, dŵr yw madarch yn bennaf (nodwch faint maent yn lleihau o ran maint y tro nesaf i chi eu coginio nhw!) felly am adegau hir o'r flwyddyn nid yw'n ddiogel iddynt dyfu. Yn yr haf, mae perygl iddynt golli llawer o'u dŵr drwy anweddiad ar ddiwrnodau poeth, ac yn y gaeaf, bydd rhew yn eu hatal rhag tyfu. Felly, efo tymereddau gweddol fwyn yn yr hydref, yn ogystal â'r cynnydd mewn glawiad (sydd yn sicr wedi cychwyn erbyn mis Hydref), nid oes amser gwell i fadarch dyfu.

Mae sawl lle yng Nghaerdydd y byddwn yn eu hargymell i unrhyw un sydd efo diddordeb mewn madarch. Mae Coed-y-bedw a'r coed ochr ogleddol Parc y Rhath yn cynnig amrywiaeth mawr i chi eu mwynhau. Ond y lle gorau yn y ddinas, yn fy marn i, yw Mynwent Cathays. Dros ganrif a hanner oed ac yn ddigon mawr i gynnal ecosystem weddol iachus, mae gan y fynwent y fioamrywiaeth orau am fadarch ar hyd y ddinas. Treuliais bron bore cyfan yno yng nghanol mis Hydref, ac roedd yn hyfryd gweld madarch o bob lliw a maint. Fy hoff deulu o fadarch sydd i'w gweld yn y fynwent yw'r *waxcaps* - teulu o ffyngau sydd yn fwy cartrefol mewn glaswelltiroedd na mewn coetir. Mae gan lawer ohonynt liwiau pert iawn, o goch tywyll i wyrdd golau. Pan fydd y rhew cyntaf yn ymddangos mewn rhai wythnosau bydd yn rhy hwyr am flwyddyn arall, felly gwnewch yn siŵr eich bod yn ymweld â glaswelltiroedd a choedwigoedd Caerdydd y mis hwn, a mwynhewch weld y deyrnas fwyaf rhyfedd sydd gennym ar y ddaear!

# Cymdeithas Gymraeg Rhiwbeina

Ar nos Lun 16 Hydref croesawodd ein Cadeirydd, Shirley Williams, siaradwr y noson, sef Arwel Ellis Owen. Wrth ei gyflwyno, dywedodd Shirley fod Arwel yn ŵr adnabyddus iawn o fewn y byd cyfathrebu yng Nghymru a thu hwnt. Cafodd ei fagu ym mhentref Llansannan ac fe fu'n astudio Gwleidyddiaeth Ryngwladol ym Mhrifysgol Aberystwyth, gan lwyddo i gael gyrfa hynod ddisglair ac eang ym myd darlledu cyhoeddus.

Yn ei gyflwyniad aeth Arwel â ni ar daith, gan adrodd straeon 'o Valparaiso i Vladivostok'. Roedd nifer o'r straeon difyr a dwys yn ymwneud â'i waith yn y byd teledu, yn bennaf gyda'r BBC ac S4C, ac yna fel ymgynghorydd ym maes cyfathrebu, a hynny ar draws y byd. Diolchodd i'r BBC am y cyfleoedd a gafodd i deithio ac ehangu ei orwelion ac ennill profiad yn y byd darlledu. Bu sawl tro trwstan ar hyd y daith, a sawl un o'r atgofion hynny yn ddoniol iawn.

Rhyfeddol hefyd oedd bod cynifer o gysylltiadau Cymraeg a Chymreig yn britho'r atgofion. Cymry ar wasgar yng ngwir ystyr y gair, a hynny mewn mannau ag enwau egsotig dros ben. Bu'n dyst i dlodi enbyd a mannau cyfoethog iawn, a chafodd gyfle i gwrdd â phobl gyffredin ynghyd ag enwau mawr ac arweinyddion gwleidyddol adnabyddus.



Gwilym Roberts, Shirley Williams ac Arwel Ellis Owen

Ar ddiwedd y noson diolchwyd iddo am sgwrs arbennig o ddifyr ac addysgiadol, a chafwyd cyfle am baned a sgwrs i gloi'r noson.

## Côr Caerdydd ar bererindod

Naw can mlynedd ers i Dyddewi gael ei chydnabod yn rhyngwladol yn fan pererindod, pa le gwell i Gôr Caerdydd fynd iddo ar ei daith gorawl gyntaf ers dyddiau Cofid? Y gadeirlan ei hun oedd y gyrchfan, a chyngerdd am ddim ar b'nawn Sadwrn yn Hydref. Nid ymwelwyr yn taro i mewn a gwrando am ennyd a gawsom, ond cynulleidfa lawn ar eu heistedd yn barod am gyngerdd. A sefyll bu'n rhaid i nifer yn y cefn.

Cyflwynodd y côr raglen amrywiol o gerddoriaeth glasurol eglwysig, caneuon gospel a threfniannau o alawon gwerin ac emynau o Gymru. Yr unawdwyr oedd Iwan Llechid a Gwenllïan Wyn. Ond nid cantorion yn unig sydd yn y côr - aeth Rhisiart Arwel â ni am ennyd i Frasil gyda'i gitâr glasurol a'r cyfeilydd Dafydd Huw â ni i fyd cerddoriaeth addoliad gyfoes. Ar ôl gwrando'n astud am awr, gyda'r *Amen* olaf cododd y gynulleidfa ar eu traed mewn gwerthfawrogiad. A dangoswyd hynny hefyd mewn cyfraniadau hael o dros £500 at BHF Cymru.

Lleoliad eiconig arall – Tyndyrn – fydd y canolbwynt ynghanol cyfnod y cofio ym mis Tachwedd pan fydd y côr yn cyflwyno *Requiem* Fauré a gweithiau eraill o goffâd yn Eglwys San Mihangel. Ddeuddydd ynghynt bydd cyfle i glywed y *Requiem* yn yr Eglwys Newydd dan nawdd Eglwys Ebeneser, Caerdydd – mae'r manylion yn y *Digwyddiadur*.

Ar b'nawn Sul 3 Rhagfyr bydd Delwyn Siôn yn ymuno â ni yng nghapel Tabernacl, Efail Isaf, mewn cyngerdd i godi arian at Eisteddfod Rhondda Cynon Taf 2024. A byddwn yn ôl ein harfer yn codi arian at elusennau Felindre a Hosbis y Ddinas drwy ganu carolau yn ystod y mis. Os yw'r digwyddiadau hyn wedi codi awydd arnoch i ymuno, ewch i'n gwefan www.corcaerdydd.com am fanylion ac i weld lluniau o deithiau'r gorffennol.

Naw can mlynedd yn ôl dyfarnwyd bod dwy bererindod i Dyddewi gyfystyr ag un i Rufain. Tybed ble fydd taith nesaf Côr Caerdydd?



## Côr y Gleision

## *Première Byd yng Nghaerdydd!*

Mae hi wedi bod yn gyfnod prysur iawn i Gôr y Gleision. Yn gyntaf, fe deithiodd y côr i Nantes i ganu yn ystod penwythnos gêm Cymru a Georgia mewn cyngerdd mawreddog gyda chôr lleol y *Schola Cantorum de Nantes* ym mhresenoldeb maer y ddinas a Mark Drakeford! Yn ogystal fe gawson nhw'r cyfle i ganu yn y *fanzone* ar y dydd Sadwrn cyn y gêm fawr, gan ddiddanu'r dorf fel y gwnaethon nhw yn 2015 yng Nghaerdydd.

Yn ogystal, mae'r côr wedi comisiynu eu harweinydd, Richard Vaughan, i gyfansoddi gwaith mawr ar eu cyfer. Yn wreiddiol o Rydaman, dyma'r darn cyntaf i Richard ei gyfansoddi ar gyfer côr, unawdwyr a cherddorfa. Tipyn o gamp! Bydd *Gloria in Excelsis Deo* yn cael ei berfformio am y tro cyntaf erioed yn Eglwys Gadeiriol Fetropolitan Caerdydd ar 2 Rhagfyr eleni. Bydd Trystan Llŷr Griffiths a Fflur Wyn yn perfformio fel unawdwyr yn ogystal â 100 o leisiau Côr y Gleision a cherddorfa'r *British Sinfonietta*. Première Byd! Felly mynnwch eich tocyn!




# Merched y Wawr Bro Radur

Ar nos Fercher, 4 Hydref, Bet Davies, Radur, oedd ein gwestai, a braint oedd cael cip ar hanes ei bywyd diddorol. Cafodd ei geni ym Manceinion, a phan oedd yn bedair oed symudodd y teulu di-Gymraeg i Ddyffryn Nantlle. Wedi iddi ennill dwy radd yng Ngholeg Prifysgol Cymru, Aberystwyth, daeth i Gaerdydd i weithio gyda'r Bwrdd Croeso, yna gyda'r Awdurdod Datblygu, Caerdydd 2008 ac wedyn Canolfan y Mileniwm.

Anrhydeddwyd Bet Davies yn 2002 gan Lywodraeth Japan am ei gwaith yn hyrwyddo cysylltiadau economaidd a diwylliannol rhwng Cymru a Japan. Eglurodd, ar sail ei phrofiad o ymweld â Japan yn gyson, bod tebygrwydd rhwng y ddwy wlad a'u pobl, er bod poblogaeth Japan 121.5 miliwn yn fwy na Chymru! Cyfeiriodd at draddodiad barddol y ddwy wlad a bod chwedlau'r Mabinogi wedi'u cyfieithu i'r Japaneg.

Un nod yn yr Awdurdod Datblygu oedd denu mwy o fewnfuddsoddiad o Japan, yn dilyn y don fawr gyntaf yn y 1970au, gyda chwmnïau mawr fel Sony a Panasonic, a Toyota wedyn yn 1990. Er gwaethaf globaleiddio, mae 50 cwmni o Japan yma o hyd yn cyfrannu at weithgarwch economaidd ein gwlad.



*Bet Davies ac Eirian Dafydd*

Ar lefel bersonol, rhannodd ein gwestai i'w thad ddioddef yn enbyd yn Burma o dan law'r Japaneaid adeg yr Ail Ryfel Byd, ac iddo farw yn gymharol ifanc o'r sgileffeithiau hirdymor ar ei iechyd. Syndod, felly, i'w modryb oedd gweld ei nith yn barod i fynd i Japan, o bob man yn y byd, i weithio a phontio.

Ym mis Mai 1998, Bet Davies fu'n gyfrifol am drefniadau ymweliad Ymerawdwr ac Ymerodres Japan â Chymru. O ganlyniad i hynny, cynhaliwyd gŵyl *Japan 2001*, gŵyl a ysgogodd 200 o ddigwyddiadau yng Nghymru, gyda phob math o gwmnïau celfyddydol a chymdeithasau yn elwa.

Calondid oedd clywed bod y cysylltiadau cynnar rhwng y ddwy wlad yn parhau drwy waith ymchwil; yr ysgol Japaneaidd yn yr Eglwys Newydd; animeiddio trwy Ŵyl Kotatsu; gerddi; a'r gefeillio rhwng Ysgol Plasmawr ac ysgol yn Sakai, heb anghofio'r Cymdeithasau Cymraeg sy'n cwrdd yn Tokyo ac Osaka.

Diolchwyd i'r gwestai gan ein Llywydd, Eirian Dafydd, a ddywedodd fod Bet Davies wedi llwyddo'n rhagorol yn ei gwaith ymroddedig i gymodi ac i bontio rhwng Cymru a Japan er budd sylweddol i'r ddwy wlad.

*Gwen Emyr*

## Cyfeillion Cronfeydd Dŵr Caerdydd

Wedi sawl blwyddyn o ymgyrchu caled gan Grŵp Gweithredu'r Cronfeydd Dŵr (*RAG: Reservoir Action Group*), fe achubwyd safle cronfeydd dŵr Llys-faen a Llanisien rhag dod yn ystâd tai newydd. Gwrthodwyd caniatâd cynllunio i Western Power ar gyfer hynny, yn rhannol gan i waith y grŵp arwain at nodi argloddiau'r gronfa ddŵr yn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) oherwydd eu ffyngau glaswelltir, a rhestru'r gronfa ddŵr ei hun gan CADW yn strwythur o bwysigrwydd hanesyddol.

Mae achub y cronfeydd dŵr wedi bod yn fuddugoliaeth sylweddol i bobl Caerdydd!

Cafodd y safle ei ailddatblygu'n helaeth, gyda chanolfan ymwelwyr a chaffi, cyfleusterau chwaraeon dŵr, llwybrau troed, cuddfan adar a llwybr stori coetir, a'i agor i'r cyhoedd ym mis Gorffennaf 2023. Oherwydd yr ecoleg sensitif, ni chaniateir mynd â chŵn am dro na beicio.

Mae gan Gyfeillion Cronfeydd Dŵr Caerdydd gyfansoddiad annibynnol ond mae'n gweithio'n agos gyda Dŵr Cymru i gefnogi cadwraeth, hamdden a gweithgaredd addysgol. Anogir ein haelodau (tua 300, a mwy yn ymuno) i bori system rheoli gwirfoddolwyr Dŵr Cymru, lle gallant weld beth sydd ar gael a dewis ymuno ag amrywiaeth o weithgareddau gwirfoddoli a hyfforddi.

Mae gwirfoddolwyr wedi gweithio gyda cheidwaid Dŵr Cymru i adeiladu waliau cerrig sychion, plannu ynysoedd adar, casglu hadau clychau'r gog brodorol a chribinio'r glaswellt i wella ffyniant y ffyngau cap cwyr. Rydym yn gweithio gyda grwpiau allanol hefyd, i alluogi mwy o aelodau'r gymuned i ymweld â'r safle a chael budd ohono.

Gall unrhyw un sydd â diddordeb mewn ymuno â Chyfeillion Cronfeydd Dŵr Caerdydd wneud hynny drwy ein gwefan https://www.friendsofcardiffreservoirs.org/membership/ (Saesneg yn unig) neu drwy anfon e-bost at membership@friendsofcardiffreservoirs.org

Rydym yn cynnal sesiynau galw heibio yn y caffi, yn fisol i ddechrau. Os gwelwch ni yno, dewch i ddweud 'helo'.

*Fiona Liddell*
*Ysgrifennydd, Cyfeillion Cronfeydd Dŵr Caerdydd*



*Cronfa Ddŵr Llanisien ar ei newydd wedd*

## Eisteddfod Gadeiriol Caerdydd 2024

Mae'n siŵr bod nifer ohonoch yn gwybod bod y rhestrau testunau ar gyfer Eisteddfod Gadeiriol Caerdydd 2024 bellach wedi eu cyhoeddi. Mae'r cyfan i'w gweld ar wefan yr eisteddfod, www.eisteddfodcaerdydd.cymru. Y dyddiad cau ar gyfer anfon ceisiadau gwaith cartref yw dydd Gwener 8 Rhagfyr. Pwy a ŵyr, efallai mai chi fydd yn ennill y gadair hyfryd sydd i'w gweld yn y llun!

Cyhelir yr eisteddfod ar nos Wener, 26 Ionawr 2024, yn Ysgol Glantaf.

Mae dal cyfle i chi noddi cystadlaethau, neu roi nawdd cyffredinol i'r eisteddfod. Gallwch noddi cystadleuaeth neu gystadlaethau penodol, neu roi gwobr er cof am rywun. Anfonwch e-bost at cyswllt@eisteddfodcaerdydd.cymru.

Ry'n ni hefyd yn chwilio am wirfoddolwyr i helpu stiwardio ar y noson: anfonwch e-bost atom os gallwch chi helpu am awr neu ddwy. Diolch yn fawr!

***Cadair Eisteddfod Gadeiriol Caerdydd 2024***



# Colofn Chwaraeon Hywel Owen

***John Parry-Jones sy'n bwrw golwg ar ddechrau campus Clwb Rygbi Cymry Caerdydd i'r tymor***

Cychwynnodd tymor 2023/24 â thaith fer i Bontyclun ar ddiwrnod braf, heulog ar ddechrau mis Medi. Roedd y tîm cartref wedi cael y gorau ohonon ni dros y tymhorau diweddar, a ro'n ni'n disgwyl gêm galed ac agored, ond roedd yr ymarfer dros yr haf wedi mynd yn dda, ac roedd y gobeithion yn uchel.




***Cai Hayes yn sgorio cais yn erbyn Pontyclun.***

Dechreuodd y Clwb yn arbennig, gyda'r pac yn llwyr reoli'r gwrthwynebwyr ifanc, a chyn pen dim ro'n ni ar y blaen o 8-3. Ond gyda thorf swnllyd yn mwynhau'r haul ac yn eu gyrru nhw 'mlaen, tarodd y tîm cartref nôl, ac wrth droi, rhywsut ro'n ni ar ei hôl hi o 10-8. Ond wedi pwyllo, chwaraewyd ail hanner perffaith. Roedd y pac yn chwalu pac Pontyclun yn ddidrugaredd, ac felly chwaraeodd y bechgyn at eu cryfder a chadw'r bêl yn dynn, a chroesodd y blaenwyr am ddau gais sydyn i fynd â ni nôl ar y blaen. Wedi hynny, mater o chwarae rygbi synhwyrol oedd hi, a dyna ddigwyddodd gyda'r bechgyn yn croesi am ddau gais hwyr i selio'r fuddugoliaeth a'r pwynt bonws. Wrth glywed am y 67s yn curo ail dîm St Joseph's hefyd, roedd hi wedi bod yn ddechrau tymor boddhaol tu hwnt.

Wel os bu hi'n boeth draw ym Mhontyclun, roedd hi'n gynhesach fyth wrth i Aberllechau (Wattstown) gyrraedd Pontcanna wythnos yn ddiweddarach! Ro'n nhw wedi dod i fyny o Adran 4, a hefyd wedi bod yn fuddugol ar Sadwrn cynta'r tymor gan guro Treherbert yn gyfforddus.

Agorodd y bechgyn yn bwrpasol, ond taflwyd un pas hir yn ormod, a rhyngipiodd un o gefnwyr yr ymwelwyr i groesi am gais cynnar. Ond am yr ail wythnos yn olynol, roedd pac y Clwb lawer cryfach na'i gwrthwynebwyr, ac wedi pwyso am y rhan fwyaf o'r hanner, gwobrwywyd yr ymdrechion â thri chais cyn yr hanner, ac roedd y gêm yn ein dwylo ni.

Er i Aberllechau gael sbel gref ar ddechrau'r ail hanner, gan sgorio ail gais, dim ond un tîm oedd ynddi mewn gwirionedd, a chroesodd y Clwb am bedwerydd cais i sicrhau pwynt bonws, cyn i bumed cais goroni'r prynhawn gan i ni ennill o 42 -10. Buddugoliaeth arbennig arall a ninne ar frig y tabl wedi dwy gêm.

Parhaodd dechrau tymor campus y Clwb gyda dwy fuddugoliaeth arall. Cafwyd taith i ben ucha'r Rhondda i gwrdd â Threherbert a oedd, fel Aberllechau, wedi dod i fyny o'r Bedwaredd Adran y llynedd, ac eto, cafwyd buddugoliaeth gyffyrddus o 32-5, cyn inni deithio i Gas-gwent ar gyfer gêm yn rownd agoriadol y Fowlen. Unwaith yn rhagor, cafwyd buddugoliaeth arbennig o 27-20.

Coronwyd mis Medi boddhaol tu hwnt gyda thaith i Sblot i gwrdd â'r Old Illtydians, ac er nad oeddem ni ar ein gorau, roedd dau gais cynnar, a chic gosb hwyr yn ddigon i sicrhau buddugoliaeth arall, a braf oedd gweld y Clwb ar frig Adran 3 wrth i ni gyrraedd mis Hydref. Ro'n ni wedi mwynhau pum buddugoliaeth i'r tîm cyntaf, a phedair o'r rheiny y tu hwnt i Bontcanna, a dwy fuddugoliaeth i'r 67s, a llwyth o wynebau newydd i'w gweld yn ymarfer bob wythnos.

Parhaodd y dechrau campus i'r tymor drwy guro Llandaf gartre ar 14 Hydref o 31-14. Yn anffodus collodd y Clwb am y tro cyntaf y tymor hwn ar 21 Hydref yn erbyn Pen-y-graig o 14-13. Er hyn bu dau fis cyntaf y tymor yn galonogol iawn a'r sialens inni fydd cynnal y safonau, ac adeiladu ar y dechrau da.

# Merched y Wawr Y Felin

Cafwyd noson hwyliog iawn ar nos Iau, 19 Hydref, pan ddaeth Avril Williams, sy'n arweinydd tai chi qigong shibashi, atom i Gangen Y Felin.

Eglurodd Avril sut mae tai chi, neu tai chi qigong shibashi i fod yn gywir, yn cynnwys cyfres o ymarferion araf sy'n llifo, sy'n cyfuno symudiad, myfyrdod ac anadlu rhythmig. Er i tai chi gael ei ddatblygu yn wreiddiol fel crefft ymladd, mae bellach yn cael ei ymarfer yn helaeth fel ffordd o ymarfer corff a myfyrdod symudol. Mae llawer o ymarferwyr tai chi yn defnyddio'r dechneg i wella iechyd corfforol a meddyliol, yn ogystal â gwella ystum, cydbwysedd, hyblygrwydd a chryfder.

Disgrifiodd Avril sut mae ymarfer tai chi yn yr awyr agored mewn parciau yn rhan o fywyd beunyddiol nifer fawr o drigolion gwledydd megis China. Mae ymarfer yn gyson yn llesol i'r corff ac i'r ysbryd. Cawsom fel aelodau gyfle i ymarfer rhai o'r symudiadau tai chi o dan arweiniad Avril, gan deimlo i'r profiad fod yn llesol ar ddiwedd y noson.

Mae Avril Williams yn arwain nifer o sesiynau tai chi, ac yn cynnal sesiynau trwy'r Gymraeg i Fenter Caerdydd. Dwi'n siŵr y bydd nifer ohonom ni yn ymuno yn y sesiynau y tymor nesa, wedi i ni gael blas o'r ymarferion yng nghwmni Avril.

*Janet James*

# Siaradwyr Cymraeg Newydd



## Heulwen a heulwen yn Solfach !

Gwilym Dafydd

**Gwyliau Sir Benfro**

Rwy'n sylwi fy mod wedi rhoi plwg go dda o hanner tudalen i *Skomer View*, Llanunwas, Solfach, yn y golofn hon, mis Hydref y llynedd. Roedd llun Eirian o'r porthladd cysgodol yn darlunio pam ei fod mor boblogaidd gan ymwelwyr a thrigolion lleol sy'n mynd yno am dro yn rheolaidd.

Hwn oedd ein trydydd ymweliad â *Skomer View,* yn ystod wythnos 21-28 Hydref eleni. Ron ni'n ffodus iawn i fwynhau pump diwrnod sych ar y cyfan, yna cawodydd ar y dydd Iau a Gwener.



Yn sicr bore Mercher oedd un o'r uchafbwyntiau – wedi yfed coffi yn y *Sloop*, Porthgain, sydd yno ers 1743, a'r haul cynnes yn disgleirio trwy'r bore, cerdded draw ar lwybr yr arfordir i Abereiddi. Mae'r golygfeydd mor hyfryd wrth syllu i gyfeiriad Penrhyn Tyddewi ac wrth gerdded nôl, a goleudy Strumble Head, Pencaer yn fflachio'n gyson sawl milltir i ffwrdd.

Ar y bore Sul, cerddais lawr i gyfeiriad Capel Mynydd Seion erbyn 10:30. Doedd dim oedfa, y drws ar gau, a mwy o sgaffaldau o amgylch yr adeilad hyd yn oed na'r llynedd.

Cerddais nôl i *Skomer View* ac yn sydyn daeth bws mawr rownd y gornel. Edrychais i fyny o'r palmant a gweld Heulwen, Côr Caerdydd, yn edrych lawr arnaf! Ron i'n gwybod o flaen llaw bod y Côr i ganu yn yr Eglwys Gadeiriol am un o'r gloch ddydd Sadwrn. Clywais rai dyddiau'n ddiweddarach fod y bws wedi aros am awr yn y porthladd gerllaw cyn cinio Sul yng Nghlwb Golff Hwlffordd.

Ron ni'n crwydro Tyddewi am ychydig brynhawn Gwener tua 3:30 a sylwi bod côr plant bach i ganu am bedwar o'r gloch. Mewn â ni gyda chynulleidfa o rieni ac ambell i daid a nain i wrando ar un deg tri yn cyflwyno dwy gân. 'Pwy ych chi?' holais y ficer oedd wedi arwain yr addoliad. Wele'r Barchedig Ganon Angharad James, gynt o Gaerdydd, un o ddisgyblion Malcolm Thomas yn Ysgol Glantaf nôl yn yr 80au! Mae Angharad newydd symud i Dyddewi wedi pedair blynedd ar hugain yn Llundain. Gwnes i fwynhau gwrando ar sain yr organ bib yno, afraid dweud.

**Profiad o Aberfan gydag Isobel Carter**

Wrth ddisgyn o'r trên yn Ynysowen, y peth cyntaf a welais, oedd y beddau gwynion trawiadol hanner ffordd i fyny'r mynydd, yn disgleirio yn yr heulwen. Ar y platfform rhoddodd Ted Richards, cynullwr y grŵp, araith fer ynglŷn â'r ardal yn gyffredinol. Roedd gyrrwr y trên yn flin na allai oedi i glywed yr hanes yma, a rhoddodd *pip* bach arbennig i ni wrth iddo gario ymlaen i Ferthyr.

Cafodd Idloes Owen ei eni yn yr ardal yn 1894. Cafodd ddylanwad mawr ar fiwsig gan ei fod yn ganwr, cyfansoddwr ac yn arweinydd. Ef fu un o sylfaenwyr blaenllaw Opera Cenedlaethol Cymru. Brodor arall oedd Henry Morgan a gyfansoddodd y dôn i'r gân enwog 'We'll keep a welcome in the hillside'.

Ar ôl rhywfaint mwy o hanes yr ardal, cerddom o'r orsaf yn uwch ac yn uwch i fyny'r llethr gweddol serth tuag at y fynwent. Anodd credu wrth weld y coed yn awr wedi tyfu'n drwchus dros y bryniau i gyd, sut y gallai tomen lo lithro 700 llath gan foddi rhan mor sylweddol o'r pentre a lladd pump o athrawon a 109 o blant. Siawns oedd bod y plant yn yr ysgol pan ddigwyddodd y drychineb. Y bwriad oedd cau yr ysgol am hanner dydd gan fod hanner tymor ar ddechrau. Rhaid y bu 'pe na bai' ar wefus pob rhiant a'r teuluoedd.



Mae'r beddau a'r ardd goffa yn cael eu tacluso a'u hadnewyddu bob blwyddyn ac mae gofal a pharch y gymuned yn creu awyrgylch tawel, heddychlon i deuluoedd ac ymwelwyr wrth gerdded o amgylch cyn eistedd yn feddylgar dwys ar feinciau'r ardd.

Er clywed yr hanes nifer o weithiau dros y 57 o flynyddoedd ers y digwyddiad, mae'n dal i gael effaith drawiadol o'r newydd bob tro.

Er y cafwyd yr NCB yn gyfrifol yn y llys, ni chosbwyd unrhywun. Rhaid aros tan 2008 cyn i lofruddiaeth gorfforaethol ddod yn ddeddf.

**U3A Caerdydd - llawer o grwpiau gwahanol - os hoffech ragor o wybodaeth cysylltwch â Mario Greening, chair@cardiffu3a.org.uk https://cardiffu3a.org**

# Clwb Canna

Wel am noson arbennig! Cafwyd noson agoriadol wych i dymor newydd Clwb Canna. Unwaith eto, roedd y Clwb rhyddfrydol yn llawn, a'r mwynhad i'w weld ar wynebau pawb.

Agorwyd y noson gan **Lo-Fi Jones**, y band enillodd Brwydr y Bandiau Gwerin yn yr Eisteddfod Genedlaethol eleni. Ac roedd yn amlwg pam y daethon nhw i'r brig – triawd o gerddorion hollol wych ac amryddawn sy'n haeddu llawer iawn mwy o gigs. Chwiliwch amdanyn nhw ar y we, a gwrandewch ar eu cerddoriaeth.



*Band Tŷ Potas*

Yna, roedd y llwyfan yn llawn o gerddorion eraill hollol wych, gyda **Band Tŷ Potas** o dan arweiniad Mei Gwynedd. Cawsom wledd o ganu a mwynhau, a chyfle i bawb ymuno. Roedd y gynulleidfa yn dawnsio ac yn cydganu o'r dechrau'n deg. Os ydych chi'n chwilio am rywun i gynnal parti o noson, dyma'r band i chi. Maen nhw'n chwarae'r hen ffefrynnau, y clasuron Cymreig sy'n gyfarwydd i bawb, o Hogia'r Wyddfa i Meic Stevens i Huw Chiswell, ynghyd â'n caneuon gwerin adnabyddus. Ac roedd y gynulleidfa gyfan ar ei thraed yn gwrando, yn cydganu ac yn clapio i 'Hei Mistar Urdd'! Noson wirioneddol wych eto.

Gig nesaf Clwb Canna fydd gyda **Bwncath**, **Dadleoli** a **Taran** yn Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf, nos Wener, 19 Ionawr, ac mae'r tocynnau ar werth am £15 yn Caban ac ar-lein drwy *TicketSource*: https://www.ticketsource.co.uk/booking/select/RdiEJKhzXNnT

---

## Sioe Academi Berfformio Caerdydd

Nos Sadwrn, 21 Hydref, cafwyd perfformiad hirddisgwyliedig o'r sioe *Geiriau'n Cyfri* gan Academi Berfformio Caerdydd (ABC) – sioe a oedd i fod i gael ei llwyfannu'n wreiddiol ym mis Ebrill 2020!

Mae'r sioe, gan Cefin Roberts a Sioned Webb, gyda chaneuon newydd gan Richard Vaughan, yr un mor berthnasol heddiw â phan y'i hysgrifennwyd yn wreiddiol yn y nawdegau. Sioe yw hi sy'n olrhain hanes Teulu'r Wyddor a Byddin y Rhifau wrth i'r ddwy garfan ymladd am diriogaeth cyn llwyddo, yn y pen draw, i fyw yn gymysg ac yn gytûn beth bynnag ddaw!

Elin Llwyd, Cyfarwyddwr ABC, oedd yng ngofal y sioe gyda chymorth gan Anwen Carlise ac Elan Isaac, ynghyd â chefnogaeth amhrisiadwy nifer fawr o bobl. Roedd hi hefyd yn hyfryd bod nifer o gyn-aelodau, sydd bellach yn y brifysgol neu'n gweithio, wedi dychwelyd i helpu gyda'r sioe.

Mae ABC yn cwrdd yn wythnosol ar nos Lun, ac yn cynnal sesiynau i Flynyddoedd 3 - 13 ar hyn o bryd. Byddan nhw'n dathlu 10 mlynedd ers sefydlu'r Academi yn 2014 ac maen nhw'n gobeithio cynnal cyfres o ddigwyddiadau i ddathlu yn ystod 2024. Byddwn ni'n edrych ymlaen!



*Cast brwd sioe Geiriau'n Cyfri gan Academi Berfformio Caerdydd*

# Llys a Llan

*Colofn sy'n crwydro ar hyd meysydd llên, crefydd a hanes yng Nghaerdydd a'r Fro*

Yr Athro E. Wyn James



**Siemsyn Twrbil a Thribannau Caerdydd – rhan 2**

Er bod beirdd ar hyd a lled Cymru wedi canu ar fesur syml a swynol y triban dros y canrifoedd, roedd y ffurf wedi ei chofleidio mor gynnes gan feirdd gwlad Morgannwg erbyn y 18fed ganrif a'r 19eg ganrif nes ei galw'n aml yn 'driban Morgannwg'.

Un o nodweddion tribannau Morgannwg yw eu bod yn hoff iawn o enwi pobl a lleoedd, ac yn rhan gyntaf yr erthygl hon (yn rhifyn Hydref 2023), trafodwyd y tribannau hynny sy'n enwi Caerdydd. Soniwyd hefyd am nifer o dribannau sy'n enwi mannau sydd bellach yn rhan o'r ddinas; ac wrth wneud hynny, tynnwyd yn arbennig ar y casgliad helaeth, *Tribannau Morgannwg*, a gyhoeddwyd gan Tegwyn Jones yn 1976.

Nid yw'n annisgwyl, efallai, mai'r faestref sy'n cael ei henwi amlaf yn y tribannau yw Llandaf, ac wedi crybwyll sawl enghraifft o dribannau sy'n ei henwi, terfynwyd rhan gyntaf yr erthygl hon trwy ddyfynnu triban sy'n enwi Llandaf ymhlith nifer o fannau eraill yn yr hyn sydd bellach yn orllewin dinas Caerdydd:

Mae merched glân yn Nhyllgo'd,
Ac yn Llandaf rhai hynod,
Ac yn y Caera aml rai,
Ond yn Nhreláí'r clecïod.

Er mai awduraeth anhysbys sydd i'r rhan fwyaf o dribannau Morgannwg, gwyddom pwy yw awdur y triban uchod sydd mor llawdrwm ar ferched Trelái. Ei enw yw Siemsyn (neu Siâms) Twrbil, neu 'James Turberville' a rhoi iddo ei enw 'swyddogol'. Mae'r cyfenw 'Turberville' yn dangos ei fod yn disgyn o un o'r teuluoedd o fewnfudwyr i Fro Morgannwg, a barodd drai yno ar y Gymraeg i ddechrau. Ond maes o law, gwelwyd nifer o aelodau'r teuluoedd hynny – pobl â chyfenwau fel Stradling a Bassett – yn ymroi i'r bywyd diwylliannol Cymraeg; a dyna sy'n wir am Siemsyn Twrbil.

Gwehydd oedd Siemsyn wrth ei grefft, a bu'n byw mewn sawl man ym Morgannwg. Mae T. C. Evans ('Cadrawd'; 1846–1918), er enghraifft, yn dweud yn ei gyfrol, *History of Llangynwyd Parish* (1887), iddo fyw yn y plwyf hwnnw am lawer blwyddyn; ac mae'n bosibl mai Siemsyn yw awdur (neu wrthrych) y faled 'Ffarwél i Langyfelach lon'. Ond un o ardal 'Parc Victoria' yng Nghaerdydd ydoedd yn wreiddiol.

Crëwyd 'Parc Victoria' yn yr 1890au ar ran o dir comin a elwid 'y Cimdda', ac yng nghyffiniau'r tir comin hwnnw y ganed Siemsyn yn 1777 – 'blwyddyn y tair caib', fel y'i gelwir, oherwydd siâp y rhifau 7 – yn fab i James Turberville arall (a aned yn 1752), a'i wraig, Elizabeth Robert; ac yno y magwyd ef, meddai tribannwr arall, sef Twm Llewelyn, Llantrisant:

Siemsyn Twrbil smala
A godwyd ar y Cimdda;
Rwyt wedi dysgu iaith dy fam,
A honno gan y gwydda.

Gyda llaw, roedd tad Siemsyn – 'Iaco Twrbil' fel y'i gelwid – yntau'n barddoni. Roedd yn un o'r nythaid o feirdd, a Iolo Morganwg yn eu plith, a fyddai'n cwrdd yn nhafarn y *Globe* ('yr hen Gronnell') gyferbyn â Chastell Caerdydd, lle mae *Elevens Bar & Grill* Gareth Bale erbyn hyn. Ac am fod yr un enw gan y ddau, a'r ddau yn feirdd, gwelwn gryn gymysgu rhwng y tad a'r mab ar adegau.

Ond i ddychwelyd at glecïod Trelái! Yn *Cardiff Records*, cyfrol 5 (1905), mae J. Hobson Matthews ('Mab Cernyw'; 1858–1914) yn adrodd y stori hon:

> One day, when he [Siemsyn] was ploughing on Ely Farm, in the field adjoining the Cowbridge Road, a group of girls were gossiping at the well, which then existed hard by. One of them threw a clod of earth at Turbervill, who broke out into this *triban*:—
>
> Mae merched glân yn Dwllgod,
> Ag yn Llandâf rhai hynod,
> Ag yn y Caerau aml rhai,
> Ond yn Drelai clecïod.

Sylwer ar y ffurfiau llafar 'yn Dwllgod' ac 'yn Drelai'.

Dywed J. H. Matthews fod Siemsyn yn 'great composer of *tribannau*, often improptu', ac yn *Cardiff Records*, mae'n dyfynnu pum triban arall a briodolir iddo, gan gynnwys dau sy'n enwi mannau sydd bellach yn rhan o ddinas Caerdydd.

Mae un o'r rhain yn sôn am y Groes-wen sydd erbyn hyn yn rhan o Radur:

Mae'n bwrw glaw dinatur,
Mae'n glychu dyn yn fudr;
Thro'i ddim 'y mhen yn ôl
Oddyma i Groeswen Radyr.

Mae'n gyffredin iawn gweld amrywiadau geiriol yn achos penillion sy'n cael eu trosglwyddo ar lafar, a dyna a welwn o gymharu fersiwn J. H. Matthews ar y triban hwn â'r un sydd yng nghasgliad Tegwyn Jones, a godwyd ganddo o un o lawysgrifau Iolo Morganwg:

Mae'n bwrw glaw dinatur,
Mae'n gwlychu yn ddidostur,
Drwy gennad Duw ni throf fy mhen
Nes bwy 'Ngroes-wen yr Radur.

Dyma'r triban arall fel y'i ceir yn *Cardiff Records*:

Y tri lle oera yn Gymru,
Yw mynydd bach y Rhydre,
Trwyn y Garth a Chefn On,
Lle buai bron â sythu.

A dyma'r ffurf sydd arno yng nghasgliad Tegwyn Jones, fersiwn a gododd o gasgliad o lên gwerin Morgannwg a enillodd wobr i Gadrawd yn Eisteddfod Genedlaethol Aberdâr yn 1885:

Y tri lle oera 'Nghymru
Yw mynydd bach y Rhydri,
Twyn-y-garth a Chefan-onn
Lle buo i bron â sythu.

Lluniodd y tribannwr diwyd o Aberdâr, Jenkin Howell (1836–1902), ddau driban i Ffair Llandaf, ac os byw ac iach, dychwelwn at y rheini ac at y ffair ddrwg-enwog honno rywdro arall.

**Ôl-nodyn**
Mae Dr Dylan Foster Evans yn trafod 'y Cimdda' yn ei flog, 'Diferion o'r Pwll Coch', a braf iawn fyddai gweld mabwysiadu ei awgrym a galw 'Parc Victoria' yn 'Barc y Cimdda': https://diferion.wordpress.com/2014/11/09/parc-y-cimdda

# Y DIGWYDDIADUR

## Tachwedd

**Gwener, 10 Tachwedd**
Cymrodorion Caerdydd. Sgwrs gan Catrin Stevens ar y testun '"Ewyllys Unedig Merched yn erbyn Rhyfel": Apêl Merched Cymru at Ferched America 1923–24'. Trwy gyfrwng *Zoom* am 7.30pm. Y tâl aelodaeth am y flwyddyn yw £10; y pris mynediad i gyfarfod unigol yw £3 (ond yn rhad ac am ddim i aelodau). I dderbyn gwybodaeth ynghylch sut i dalu'r tâl aelodaeth neu'r pris mynediad i gyfarfod unigol, a thrwy hynny dderbyn y ddolen *Zoom*, anfonwch at cymrodorioncaerdydd@gmail.com. Croeso cynnes i bawb.

**Sadwrn, 11 Tachwedd**
Gŵyl Cerdd Dant Caerdydd, yng Ngholeg Caerdydd a'r Fro. Mae'r rhagbrofion yn dechrau am 8.00am, ac yna drwy'r dydd! Mynediad: £10 (oedolion); £5 (plant).

**Mawrth, 14 Tachwedd**
Merched y Wawr, Cangen Caerdydd. Sgwrs gan Maggie Smales ar y testun '"Cartref newydd, bywyd newydd": sut aeth opera sebon â fi i Affganistan', yn Eglwys Fethodistaidd Cyncoed (ar y gornel rhwng Westminster Crescent a Heol Cyncoed) am 7.00pm. Croeso cynnes i aelodau hen a newydd. Am ragor o fanylion, cysylltwch ag Eluned Press (eluned@press0.plus.com; 07761-358755).

**Mawrth, 14 Tachwedd**
Salem Treganna. Bydd Sarah Morris o Eglwys Bresbyteraidd Cymru yn rhoi cyflwyniad i'r rhaglen 'Golud' yng nghapel Salem, Treganna, am 7.00pm. Croeso i unrhyw un sydd â diddordeb mewn *dementia*, neu os yw *dementia*'n effeithio arnoch chi mewn rhyw ffordd.

**Mawrth, 14 Tachwedd**
Cymdeithas Ddiwylliannol Eglwys Minny Street. Sgwrs gan Marc Edwards am ei waith gwirfoddol gyda chanolfan Oasis i ffoaduriaid a cheiswyr lloches, am 7.30pm yn festri'r capel (CF24 4ER). Croeso.

**Mercher, 15 Tachwedd**
Côr Caerdydd (Arweinydd: Gwawr Owen; Cyfeilydd: Dafydd Huw) yn cyflwyno 'Requiem Fauré', cyngerdd er budd Apêl Cymorth Cristnogol Ffynhonnau Byw Columbia, dan nawdd Eglwys Ebeneser, Caerdydd, yn adeilad Eglwys Fethodistaidd yr Eglwys Newydd, sydd ar y cylchdro ger Hyb yr Eglwys Newydd (CF14 2AA), am 7.30pm. Tocynnau (£10 i oedolion; £5 i blant) ar gael yn Siop y Felin, Yr Eglwys Newydd.

**Iau, 16 Tachwedd**
Menter Caerdydd. 'Taith Dywys i Fyd y Parasitiaid' gan Dr Gethin Rhys Thomas (Prifysgol Abertawe). Am 7.30pm trwy gyfrwng Zoom. Am ddim. I gofrestru, cysylltwch â Rachel Matthews (rachel@mentercaerdydd.cymru).

**Gwener, 17 Tachwedd**
Cylch Llyfryddol Caerdydd. Sgwrs gan Wiliam Owen Roberts ar y testun 'Trafod Cymru Fydd'. Trwy gyfrwng *Zoom* am 7.15pm. Croeso cynnes i bawb. I ymaelodi (£10 am y flwyddyn) ac i dderbyn y ddolen *Zoom*, cysylltwch â'r Ysgrifennydd, yr Athro E. Wyn James (JamesEW@caerdydd.ac.uk).

**Gwener, 17 Tachwedd**
Cwis Dwyieithog Hwyliog yn Neuadd Ysgol Plasmawr am 7.30pm. £6 ar y drws.

**Llun, 20 Tachwedd**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbeina. Bydd Huw Aaron, cyd-enillydd Gwobr Llyfr y Flwyddyn 2023, yn sgwrsio ar y testun 'Dychymyg rhwng y cloriau' yng nghapel Bethel, Maes-y-deri, Rhiwbeina, CF14 6JJ, am 7.30pm. Bydd cyfle yn ystod y noson i brynu rhai o lyfrau plant Llyfrau Broga. Manylion pellach gan yr Ysgrifennydd, Dilwyn Jones (dilwynjones51@hotmail.com; 029-2062-0653).

**Mawrth, 28 Tachwedd**
Cymdeithas Ddiwylliannol Eglwys Minny Street. 'Rhoi lliw ar iaith: geiriau tafodieithol': sgwrs o dan arweiniad Alun Wyn Bevan, am 7.30pm yn festri'r capel (CF24 4ER). Croeso cynnes i bawb.

**Iau, 30 Tachwedd**
Dewch i ddathlu'r Nadolig yn Sain Ffagan! Bore o weithgareddau amrywiol i siaradwyr newydd o bob lefel, rhwng 10.00 a 12.00 o'r gloch. Am ddim. Digwyddiad ar y cyd rhwng Dysgu Cymraeg Caerdydd, Amgueddfa Cymru a Menter Caerdydd. I gofrestru, cysylltwch â Gwenllian Willis: WillisG1@caerdydd.ac.uk.

**Iau, 30 Tachwedd**
Cylch Cinio Merched Caerdydd, yng Nghlwb Golff Llanisien, CF14 9UD, am 7.30pm. Cinio Nadolig gydag adloniant gan Mehefin ac Ann. Am fanylion pellach, cysylltwch â'r Cadeirydd, Elin Tudur (etudur@aol.com; 07768-095678).

**Iau, 30 Tachwedd–Sadwrn, 2 Rhagfyr**
Taith Nadolig Cyw yn Ysgol Bro Edern, Caerdydd. Sawl perfformiad bob dydd. Am docynnau a manylion pellach, cysylltwch â Galeri ar 01286-685222 neu ewch i galericaernarfon.com.

**Anfonwch fanylion ar gyfer Y Digwyddiadur at**
**Yr Athro E Wyn James**
**JamesEW@caerdydd.ac.uk**
**16 Kelston Road,**
**Caerdydd, CF14 2AJ**
**029 20628754**

# Pobol y Rhigwm

Fe fuodd hi'n rhyw arferiad yn ddiweddar yn y golofn hon i gael naill ai cystadleuaeth gref o ran nifer a gwan o ran safon, neu i'r gwrthwyneb. Testun balchder mawr i'r beirniad y mis hwn, felly, oedd cael nifer calonogol yn rhoi cynnig arni gyda phob ymgais yn argyhoeddi. Mae'r saith triban a ddaeth i law yn gwbwl gywir eu mydryddiaeth ac wedi'u gweithio'n grefftus. Mae sylwedd i bob un. Fy unig rwystredigaeth y tro hwn oedd gorfod dewis enillydd ond mae honno, wrth gwrs, yn broblem neis i'w chael! Mae'n deg dweud y gallai unrhyw un o'r saith fod wedi cipio'r wobr mewn mis gwannach.

Diddorol nodi mai lleddf oedd cywair pob un (er bod un triban ychydig yn ysgafnach). Diolch i *Amdano* a *Subarunak* am dribannau awgrymog; mae gan y ddau ddawn ddiamheuol i chwarae'n glyfar â geiriau. Diolch i *Garthgoed*, wedyn, am y dwysdeimlad sicr mewn triban sy'n cyfleu dirywiad Cristnogaeth yr oes sy ohoni yn gynnil ac yn wreiddiol. Gair penodol am driban *Doedibenjamin*. Mae hwn wedi digwydd mynd i'r un trywydd â thriban y cawn glywed amdano yn y man, sef ymateb i'r braw a'r erchyllterau ry'n ni wedi'u gweld yn y Dwyrain Canol dros yr wythnose diwetha. Gwaetha'r modd i *Doedibenjamin*, mae'r triban arall wedi gwneud hynny'n well. Tra bod gan *Doedibenjamin* allu diamheuol i ddelweddu'n ddifethol (mae'r drydedd linell yn arbennig o effeithiol), gwell, ar adegau, yw bod yn llai haniaethol a gadael i'r delweddau siarad drostynt eu hunain. Rwy'n meddwl yn enwedig am y llinell 'y cachgwn ddaeth i daro'. Mae hynny'n fwy nag awgrymedig yng ngweddill y triban. Mae pob un o'r pedwar triban a ddaeth yn agos ati'n haeddu cael llwyfan *Y Dinesydd*:

Er sadrwydd trylwyr Shadrach,
Er moesau sobor Meshach,
Er disglair gair Abednego,
Drwy'r glo daw arwr glewach.

***Amdano***

Ar goelcerth fawr yn Llundain
Arllwyswyd olew'r milain.
Aberthodd blant i'w ffôr-bai-ffôr
Ar allor deg ar hugain.

***Subarunak***

Bu'r plant yn hela brigau
A geriach am wythnosau,
Ond yna gwelais yn y tân
Hen Feibl Glân fy nhadau.

***Garthgoed***

Bu'r goelcerth wen yn fflamio;
Y cachgwn ddaeth i daro.
Trwy'r lludw llwyd ar ddaear ddu,
Ysbyty sydd yn bloeddio.

***Doedibenjamin***

Dyma ni'n cyrraedd y tri ar y brig felly, ac fel yr awgrymais, mae'r safon yn go uchel y tro hwn. Dyma air am bob un:

Fe gofir bob mis Tachwedd
Gan blantos mawr a bonedd
Am gynllwyn beiddgar Guto'r gŵr,
Creu stŵr a chwalu'r Senedd.

***Ap Guto***

Hwn yw triban 'ysgafnach' y gystadleuaeth! Mae'n syml, yn uniongyrchol ac mae'n gwbwl amlwg beth sy yma – a dyna yw ei gryfder. Mae sylwedd y tu ôl i'r naratif hefyd. Sylwch ar yr ymadrodd 'plantos mawr a bonedd'. Nid ar chware bach y dewisodd *Ap Guto* ei eirie (na'i ffugenw!) i gyfleu traddodiad 5 Tachwedd. At hynny, mae'n driban campus o ran mydryddiaeth.

"Gwnawn goelcerth", medd Suella
"I losgi'r holl reola,
Ac anfon ffoaduriaid fil
I grombil poeth Rwanda."

***Y brawd arall***

Ry'n ni'n codi i dir uwch eto gyda'r ddau driban sy'n weddill. Mae 'na ddychan effeithiol iawn yn nhriban *Y brawd arall*. Beirniadaeth o agwedd Ysgrifennydd Cartref Prydain tuag at ffoaduriaid sy yma ac yn benodol, y polisi o allgludo ffoaduriaid i Rwanda. Does 'na ddim gormod dweud yn agos i'r cynnig hwn, dyma feistr o dribannwr.

Deisyfir am y cymod
A all reoli'r dafod,
Gan leddfu eto yr hen fraw
Drwy ysgwyd llaw a thrafod.

***Abraham***

Dyma ni'n ôl, felly, yn y Dwyrain Canol mewn chwip o driban gan *Abraham*. Wrth i fi sgrifennu hwn, mae'r lleisiau sy'n galw am gadoediad yn tyfu fwyfwy o ran eu niferoedd a'u sain. Mae'n amlwg bod *Abraham*, fel y ddau dribanwr arall ddaeth yn agos ati, wedi meddwl yn ddwfn cyn dewis pob un o'r naw sill ar hugain yn ei driban. 'Deisyfir'. 'Cymod'. 'Rheoli'r dafod'. Dewis penigamp o eiriau. Mae'r ymadrodd sy'n creu'r odl fewnol, wedyn, rhwng llinellau 3 a 4 yn ysgubol: 'Yr hen fraw drwy ysgwyd llaw'. Dyna fynegi'n gadarn – heb bregethu – fod yna ateb amlwg i'r holl ddioddefaint ry'n ni'n ei weld bob dydd ymhlith y bobl ddiniwed. Mae *Abraham* wedi creu triban gwirioneddol orffenedig i'n sobri. Mae'n siŵr y byddaf yn meddwl am neges y triban hwn wrth wylio *Newyddion Deg* heno.

Diolch o galon, felly, am wireddu dymuniad y beirniad i weld mwy yn cystadlu, a diolch ymhellach am saith triban crefftus a chywir. Mae'n un o fy hoff fesurau, ac mae'n galonogol dros ben ei weld yn cael ei barchu a'i ddefnyddio at ddiben. Da iawn wir, bawb.

**Enillydd Tachwedd**
**Trefor Huw Jones, Pentre'r Eglwys**

**Cystadleuaeth mis Rhagfyr**

**Limrig** yn cynnwys y llinell:
***Mae anrheg i fi dan y goeden***

*Aron Pritchard*

*Anfonwch eich cynigion erbyn 22 Tachwedd at:*
*eirianagwilym@gmail.com*
*Gwobr: Tocyn llyfr: £10*

# Caerdydd yn sicrhau statws fel ‘Dinas sy’n Dda i Blant’ gan UNICEF

Mae Caerdydd wedi sicrhau statws arbennig fel ‘Dinas sy’n Dda i Blant’ gan UNICEF. Hi yw’r ddinas gyntaf yn y Deyrnas Unedig i dderbyn y statws sy’n cael ei gydnabod yn rhyngwladol, gyda’r nod o ddathlu dinasoedd lle mae hawliau plant yn chwarae rôl flaenllaw o fewn eu polisïau a’u gwasanaethau.

Mae’r teitl yn cydnabod gwaith sydd wedi’i gyflawni gan Gyngor Caerdydd ers 2017, pan ymunon nhw â rhaglen *Dinasoedd a Chymunedau sy’n Dda i Blant* UNICEF. Ar ddechrau eu cyfnod gyda’r rhaglen, mae’n rhaid i ddinasoedd osod cynllun gweithredu er mwyn gweithio tuag at y teitl dros gyfnod o dair i bum mlynedd.

Mae 73% o ysgolion y brifddinas yn rhan o’r rhaglen erbyn hyn, wrth iddyn nhw anelu i fynd i’r afael â’r rhwystrau sy’n wynebu plant a phobol ifanc.

**Parchu hawliau plant**

Dywed y Cynghorydd Huw Thomas, arweinydd Cyngor Caerdydd, mai eu nod yw sicrhau bod pob plentyn yn ‘teimlo’n ddiogel, yn cael ei glywed, yn cael ei feithrin ac yn gallu ffynnu’.

‘Sylfaen y newid hwn fu datblygu diwylliant sy’n parchu hawliau ar draws y Cyngor a phartneriaid ar draws y ddinas i sicrhau bod ein staff yn wybodus ac yn hyderus ynghylch hawliau a’u hymarfer,’ meddai. ‘Mae hyn wedi cael ei gefnogi gan bolisi sydd wedi grymuso plant a phobl ifanc i gymryd rhan ystyrlon mewn penderfyniadau sydd o bwys iddyn nhw.’

Mae’r Cyngor wedi bod yn cydweithio gyda sefydliadau ledled y ddinas i roi strategaethau sy’n cefnogi hawliau plant a phobol ifanc ar waith. Fel rhan o’r gwaith ar hawliau plant, mae dros 5,500 aelod o’r Cyngor a’u partneriaid wedi cwblhau hyfforddiant hawliau plant, tra bod 3,595 o bobol ifanc wedi derbyn hyfforddiant ar eu hawliau.

Dywed Huw Thomas fod llu o gyfleoedd i blant ddylanwadu ar bolisïau’r ddinas.

**‘Cynnydd, nid perffeithrwydd’**

Er bod llawer o waith wedi’i wneud er mwyn sicrhau’r statws, dywed UNICEF mai ‘cydnabod cynnydd, nid perffeithrwydd’ mae’r statws.

Yn ôl Jon Sparkes, Prif Weithredwr Pwyllgor y Deyrnas Unedig ar gyfer UNICEF, mae’r teitl yn dyst i ymroddiad y Cyngor a’u partneriaid. ‘Mae hefyd yn nodi addewid i blant a phobl ifanc Caerdydd – y bydd y Cyngor yn parhau i wneud yn siŵr bod lleisiau plant wrth galon penderfyniadau lleol,’ meddai.

Er mwyn dathlu’r teitl, cafodd tua 300 o blant gyfle i gymryd rhan mewn gweithgareddau Gŵyl Hawliau ar ddydd Gwener, 27 Hydref.

*Stori: Golwg360*



***Llun: Nick Treharne***

***Huw Thomas, arweinydd Cyngor Caerdydd, a Jon Sparkes, Prif Weithredwr Pwyllgor y Deyrnas Unedig ar gyfer UNICEF, yn llofnodi cytundeb yn cydnabod Caerdydd yn ‘Ddinas sy’n Dda i Blant’***


# Dwy garol newydd ar gyfer y Nadolig

Mae’r cyfansoddwr Meuryn Hughes wedi cyfansoddi dwy garol newydd i leisiau cymysg ac yn awyddus iawn i gynifer o bobl â phosib wybod eu bod ar gael i'w lawrlwytho am ddim.

Teitlau'r carolau yw ‘Carol Nadolig 1916’, wedi ei gosod i eiriau Hedd Wyn, a ‘Carol Gogoniant’, y geiriau gan Ellis Roberts. Mae’r carolau yn syml iawn ac yn addas i unrhyw gôr cymysg eu canu. Gellir llungopïo'r darnau er mwyn eu perfformio â bendith a chaniatâd y cyfansoddwr.

Dyma’r cysylltiadau i lawrlwytho'r carolau:
http://www.aureus.co.uk/carol-nadolig-1916-satb-meuryn-hughes/
http://www.aureus.co.uk/carol-gogoniant/

*Mae Meuryn Hughes wedi bod yn cyfansoddi cerddoriaeth glasurol ers dros ddeugain mlynedd ac mae ei gerddoriaeth wedi cael ei pherfformio a'i recordio dros y byd. Mae cyfansoddi cerddoriaeth yn y Gymraeg yn bwysig iawn iddo.*



# NEWYDDION O'R EGLWYSI

## BETHEL, PENARTH

Anfonwn ein cariad cynnes at Val, gan obeithio y caiff nerth i ddilyn camre nesaf ei thaith gyda'r hynawsedd sy'n ei nodweddu.

Ar 12 Hydref cawsom orig ddiddan iawn yng nghwmni Hazel, un o'n haelodau ffyddlonaf dros gyfnod hir, y rhan fwyaf gyda'i diweddar ŵr, Tom. Bu Hazel yn bwrw golwg ar hanes Bethel tua hanner can mlynedd yn ôi, gan gyfeirio at amserau trai a llanw, pryder a gobaith. Mil diolch Hazel.

Diddorol oedd derbyn gan Emma newyddion am daith ei merch, Beca, i Fiji ym mis Gorffennaf; aeth hi yno gyda chriw o bobl ifanc dan nawdd *Think Pacific*. Buont yn byw a gweithio gyda theuluoedd tlawd iawn y wlad. Bwriad y gweithgareddau oedd rhannu profiad gyda'r trigolion ynghylch sgiliau perthnasol at gael gwaith. Cafodd Beca gyfle hefyd i fod yn rhan o achlysuron cymdeithasol a chrefyddol.

Ar 25 Hydref bu cyfarfod ym Methel o Gyfundeb Dwyrain Morgannwg Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Yn y cyfarfod trosglwyddwyd Cadeiryddiaeth y Cyfundeb i un o'n plith ni, Siân Meinir. Dymunwn yn dda i Siân yn ei thymor gwasanaeth.

Yng nghyfarfod diwethaf Cyngor Bethel (17 Hydref) clywsom am waith gorchestol ein brawd John, gydag eraill, yn tacluso llawr isaf yr adeilad, gyda golwg ar drawsnewid y gofod at bwrpasau amrywiol. Soniodd Gill – mawr ddiolch iddi - am y fenter newydd o gynnal ein ffair hydref ym Methel ei hun ar Sadwrn, 18 Tachwedd.



***Cyflwyno rhodd i'r Parchg Kevin Davies***

Ar Sul 1 Hydref cawsom oedfa ddiolchgarwch i'r Ofalaeth yn y Tabernacl. Gwnaed y trefniant hwn i alluogi'n gweinidog i fod yn y dyrfa fawr yn Hanner Marathon Caerdydd. Hefyd yn rhedeg roedd Elen, Betsan a grŵp o un ar ddeg o deulu a ffrindiau Alun a Helen, yn nodedig eu pedair merch, Eleri, Menna, Nia, Lisa. Da chi, bob un!

Roedd Sul 25 Hydref yn arbennig yn hanes Bethel a'r Tabernacl oherwydd dyna'r dyddiad y daeth gweinidogaeth amser llawn Kevin i ben. Yn dilyn yr oedfa cafwyd gwerthfawrogiad gan Alwena a Heulwen a chyflwynwyd anrheg i Kevin, sef, dyluniad a gomisiynwyd gan Angelina Hall o *Glass by Design*, Penarth, yn adlewyrchu bywyd a diddordebau Kevin. Yn ei bregeth tynnwyd ein sylw at adnodau yn y Corinthiaid at amryw ddoniau yn y gynulleidfa. Neges gynnil gan Kevin, yn briodol a heriol i ni wrth wynebu'r dyfodol.

## BETHEL, RHIWBEINA

Yn ystod y mis diwethaf cawsom gyfle i groesawu i'r pulpud y Parchg Gwilym Wyn Roberts, Mr Ion Thomas a'r Canon Aled Edwards, ac ar 22 Hydref roedd y gwasanaeth cymun yng ngofal ein gweinidog, y Parchg Evan Morgan. Mae sawl aelod newydd wedi ymuno â ni yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac ar 22 Hydref braf roedd cael rhoi croeso ffurfiol i Mr Hefin Jones, gynt o Aberystwyth.

Cynhaliwyd cyfarfod blynyddol ar 16 Hydref a chawsom y newyddion da bod yr aelodaeth wedi cynyddu dipyn ers y cyfarfod blynyddol diwethaf.

Bydd côr y capel yn dechrau ymarfer ar Sul cyntaf mis Tachwedd er mwyn paratoi ar gyfer ein gwasanaeth Nadolig.

Ar 21 Tachwedd byddwn yn cynnal bore coffi i godi arian at elusen Ambiwlans Awyr Cymru.

Edrychwn ymlaen at fwynhau cinio Nadolig gyda'n gilydd ar ddechrau Rhagfyr.

## BETHLEHEM, GWAELOD-Y-GARTH

Oedfaon ac Ysgol Sul (am 10:30 a.m. oni nodir yn wahanol):

**Tachwedd 2023:**

5ed – Oedfa Gymun - Delwyn Siôn

12fed – Parchedig Dafydd Owen

19eg – Parchedig Robert Owen Griffiths

26ain – Cyflwyniad cerddorol – 'Y Gwynfydau' (am 6:00 p.m.)

Un o'r prosiectau diweddaraf ym mhortffolio llwythog Eilir Owen Griffiths fydd llwyfannu cyflwyniad cerddorol ar thema 'Y Gwynfydau'.

Ar hyn o bryd mae côr y capel yn brysur yn ymarfer y caneuon ar gyfer y cyngerdd a fydd yn cyrraedd ei benllanw ar nos Sul y 26ain o Dachwedd (gweler uchod). Hwyrach y cofiwch i ni gael cyflwyniadau cerddorol eraill yn y capel dan arweinyddiaeth Eilir yn y gorffennol.

Y gymwynas ddiwethaf a wnaed ganddo oedd paratoi'r cantorion, yn blant ac oedolion, ar gyfer recordio'r emynau ar gyfer *Caniadaeth y Cysegr* ar Radio Cymru. Bu'r darllediadau o'r canu (a recordiwyd ym mis Tachwedd 2022), dros ddau Sul, gyda Delwyn Siôn yn cyflwyno, ar y 9fed a'r 16eg o Orffennaf eleni. (Bu peth o ganu'r plant ymysg detholiad a ddarlledwyd ar Sul arall hefyd).

Ym mis Ebrill 2022, bu'r côr, ynghyd ag unawdwyr a fu, ac a oedd yn fyfyrwyr dan ofal Eilir, yn cyflwyno 'Teilwng yw'r Oen', cyfaddasiad roc o waith Handel, a'r trefniant arbennig gan Rhys Taylor, o waith Tom Parker.

A phwy all anghofio'r cyflwyniad o 'Geiriau Olaf Dewi' o waith Eilir ei hun, ar y cyntaf o Fawrth 2020, ychydig yn unig cyn y bu rhaid cau'r capel (a phob man arall) yn sgil ymlediad Cofid yn ein plith.

Y tro hwn, cyflwynwyd y dasg o gyfansoddi darnau o farddoniaeth, yn seiliedig ar y Gwynfydau, i nifer o'r aelodau i'w dehongli. Aeth Eilir ati i gyfansoddi'r gerddoriaeth, gan weu y cyfan yn gelfydd yn ôl ei arfer. Mae berw'r ymarferion wedi dechrau – rhowch y dyddiad yn eich dyddiaduron!

## EBENESER

**Pen-blwydd Hapus**

Llongyfarchiadau i'n haelod hynaf, Mair Evans, ar ddathlu ei phen-blwydd yn 101 oed ar 1 Hydref.

**Cyfarfodydd Hanner-blynyddol**

Ar ddydd Sul, 8 Hydref, cawsom gwmni'r Parchedig Rosa Hunt, gweinidog Eglwys Y Tabernacl, yn ein cyfarfodydd pregethu hanner-blynyddol. Hyfryd oedd cael ei chroesawu i'n plith am y tro cyntaf a braf oedd cael cwmni aelodau eglwysi Cymraeg canol y ddinas hefyd yn oedfa'r p'nawn. Diolch am ei neges yn y ddwy oedfa ac edrychwn ymlaen at ei gwahodd eto i'n plith yn y dyfodol.

**Cynllun Bwydo'r Digartref**

Pleser o'r mwyaf i ni yn Ebeneser yw cael cefnogi'r Ganolfan Glyd yn y Tabernacl gydag eglwysi Cymraeg eraill y ddinas ar b'nawn Sul. Mae criw sylweddol yn cael eu bwydo ar ddydd Sul a dydd Mercher gan gael pryd poeth arbennig iawn, wedi'i ddarparu gan fwyty *Giovanni's*, drws nesaf i'r capel. Am fwy o wybodaeth cysylltwch â John_hayes1@hotmail.com

**Casglu Sbwriel**

Aeth criw allan fore Sadwrn, 21 Hydref, i gasglu sbwriel yn ardal yr Eglwys Newydd, gan orffen am baned yng nghaffi'r *Roundabout*. Ein bwriad yw codi ymwybyddiaeth o bresenoldeb yr eglwys yn y gymuned, i fod yn stiwardiaid dros yr amgylchedd a'r ardal leol, i arddangos rhinweddau Cristnogaeth ymarferol drwy wasanaethu y gymuned, a chael cyfle i sgwrsio â'r cyhoedd am waith yr eglwys. Byddwn yn cwrdd i gasglu sbwriel nesaf, y tu allan i brif giatiau'r parc ger Llyfrgell yr Eglwys Newydd, fore Sadwrn, 11 Tachwedd, rhwng 10:00 ac 11:00 o'r gloch. Croeso i unrhyw un ymuno â ni. Am fwy o wybodaeth cysylltwch â John_hayes1@hotmail.com




***Angor***

Mae criw da wedi bod yn mynychu cyfarfodydd *Angor* yng Nghanolfan *Reach*, Grangetown, bob pythefnos. Ar ddydd Sul, 22 Hydref, bu ffilmio yno gan rai sy'n rhedeg gwefan *100.Cymru*. Bydd fideo o'r ymweliad ar eu gwefan cyn bo hir. Casgliad o bobl sy'n credu'n angerddol mewn gweddi dros blannu 100 o eglwysi newydd yng Nghymru yw *100.Cymru*. I ddysgu mwy ewch i'r wefan www.100.cymru

**Colled**

Trist oedd clywed am farwolaeth Elizabeth Pierce (Beti), mam Vikki Tudur, ar 26 Hydref, yn 94 oed yn Ysbyty Dewi Sant. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf ag Alun a Vikki a'r teulu. Coffa da amdani.

## TABERNACL, YR AIS

Estynnwn ein cydymdeimlad i deulu Glenys Phillips yn dilyn ei marwolaeth, toc wedi iddi symud i hosbis Holme Tower. Yn dilyn ei hymddeoliad, dychwelodd Glenys i Gaerdydd a chofiwn yn arbennig ei ffyddlondeb i oedfaon yr hwyr.

Rhannwn lawenydd Rhian ac Owen Sennit wrth iddyn nhw groesawu Ralph i gorlan y teulu. Mae'r teulu erbyn hyn wedi ymgartrefu ym Mryste.

Llongyfarchiadau i Rhian James a Rhodri ab Owen am gwblhau Hanner Marathon Caerdydd.

Mae'r Clwb Darllen wedi bod yn brysur iawn fel arfer. Ar ddiwedd mis Medi, y llyfr a drafodwyd oedd *Hallt* gan Meleri Wyn James. Y nofel hon a gipiodd y Fedal Ryddiaith yn Eisteddfod Genedlaethol Llŷn ac Eifionydd eleni. Roedd pawb wedi mwynhau'r nofel sy'n rhoi darlun hynod deimladwy o heriau sy'n codi pan fo plentyn yn y teulu yn byw gydag anabledd. Y gyfrol nesaf i'w thrafod yw *None of This is True* gan Lisa Jewell.

Bu'r Gymdeithas 'Am Ddau' yn brysur dros ben yn ddiweddar. Arwel Ellis Owen oedd gwestai cynta'r tymor a thestun ei sgwrs ddifyr oedd 'O Valparaiso i Vladivostok'. Diolch am ei gyfraniad arbennig.

Mae gan y Gymdeithas hefyd sawl prosiect am y tymor – y cyntaf yw Gwau Petryalau, sef cefnogi prosiect Canolfan Gymunedol y Glowyr yng Nghaerffili drwy wau petryalau lliwgar i greu blancedi. Yr ail brosiect yw paratoi Bocsys Cariad yn union fel y gwnaethpwyd y llynedd.

Diolch i'r canlynnol am gynnal y gwasanaethau boreol a nosweithiol yn ystod mis Hydref: ein Gweinidog, Y Parchg Ddr Rosa Hunt; Y Parchg Judith Morris, Aberystwyth; a'r Parchg Simeon Baker.

## EGLWYS MINNY STREET

**Oedfaon y Sul a'r Ysgol Sul**

Dyma drefn oedfaon mis Tachwedd: bydd yr oedfa foreol yn cael ei chynnal bob Sul am 09:30 gydag oedfa bregeth ychwanegol am 10:30 ar yr ail Sul; bydd yr oedfa hwyrol am 18:00 bob nos Sul. Suliau yr Ysgol Sul yw'r cyntaf, y trydydd a'r pedwerydd yn y mis (gan gynnwys Ysgol Sul i'r plant hŷn ar y trydydd Sul). Bydd PIMS yn cyfarfod yn fisol am 17:00 ar brynhawn Sul cyntaf y mis. Bydd cyfle i ymuno â sawl oedfa drwy gyfrwng *Zoom.*

Edrychwn ymlaen at arweiniad ein Gweinidog yn oedfaon 5, 12, ac 19 Tachwedd. Bydd yr oedfa foreol ar y 5ed yn oedfa gymun ac oedfa 09:30 ar y 12fed yn oedfa i'r teulu. Ar 26 Tachwedd, edrychwn ymlaen at groesawu'r Parchedig Robin Wyn Samuel atom yn oedfa'r bore; y Parchedig Lona Roberts fydd yn arwain addoliad yr hwyr. Croeso i bawb.

**Gweithgarwch y mis**

Ar fore Llun y bydd cyfarfodydd Seilo (6 a 20 Tachwedd am 10:30); gyda'r hwyr ar nos Fawrth y cynhelir Bethania (7 a 21 Tachwedd am 19:00). Mae cyfarfodydd Seilo a Bethania yn gyfle i drafod a rhannu profiad ac awgrym ynghylch ein bywyd defosiynol. Am yn ail nos Fawrth y bydd y Gymdeithas yn cyfarfod (14 a 28 Tachwedd am 19:30). Y mis hwn, edrychwn ymlaen at gyfraniadau gan Marc Edwards ac Alun Wyn Bevan. Bydd cyfle i gymdeithasu dros bryd bwyd yn Koinônia a thros baned mewn bore coffi ar aelwyd aelod yn ystod y mis. Mae gweithgarwch mis Tachwedd hefyd yn cynnwys cyfle i gyfrannu'n wythnosol at elusennau'r eglwys ac i gynorthwyo â darpariaeth yr Ystafell Glyd yn y Tabernacl, yr Ais brynhawn Sul, 12 Tachwedd.



*Diolchgarwch yn Salem*

## SALEM, TREGANNA

**Diolchgarwch**

Mor braf oedd gweld y capel yn llawn ar gyfer yr Oedfa Ddiolchgarwch fore Sul, 15 Hydref. Cawsom wasanaeth amserol ac ystyrlon iawn gan y bobl ifanc ac roedd cyfraniadau'r Ysgol Sul yn wledd i'r llygaid. Diolch yn fawr i bob un a gymerodd ran, ac a fu'n paratoi ac yn hyfforddi. A diolch hefyd i'r cyfeillion fu'n addurno'r capel mor drawiadol.

**Gwasanaethau**

Cofiwch fod trefn gwasanaethau'r Sul wedi newid ers mis Hydref. Mae oedfa'r bore am 10:30 yn dilyn y patrwm arferol ond rydym yn arbrofi gyda phatrwm newydd ar gyfer oedfa'r hwyr dros 6 mis y gaeaf hyd at fis Mawrth.

Nos Sul gyntaf pob mis: oedfa arferol yn Salem am 6:00 p.m. o dan ofal Evan.

Pob nos Sul arall: oedfa *Zoom* fer yn dilyn y patrwm a welwyd yn ystod cyfnod Cofid.

Wrth edrych tua'r gaeaf, cofiwch fod croeso cynnes yn Salem bob amser.

**Gweithgareddau eraill**

**Clwb Brecwast** i rieni a phlant / babanod o dan oed meithrin. Bore Mercher 8 a 22 Tachwedd a 6 Rhagfyr rhwng 9:45 a 11:15.

**Bore *Golud*** Cyfle i rai sy'n dioddef o *dementia*, a'u gofalwyr ac unrhyw un arall, daro i mewn i gwrdd am sgwrs a phaned. Bore Llun 6 a 20 Tachwedd a 4 Rhagfyr rhwng 10:30 a 12:00.

**Cyflwyniad i raglen *Golud*** Nos Fawrth, 14 Tachwedd, am 7:00 p.m. bydd Sarah Morris o Eglwys Bresbyteraidd Cymru yn rhoi cyflwyniad i raglen *Golud*. Croeso i bawb, i unrhyw un sydd â diddordeb mewn *dementia*, neu os yw *dementia*'n effeithio arnoch chi mewn rhyw ffordd.

**Clwb Coffi** Bore Gwener, 10 Tachwedd, rhwng 11:00 a 12:00. Croeso i unrhyw un ymuno am goffi, sgwrs a chwmnïaeth.

**Clwb y Bobl Ifanc** Bu Clwb y Bobl Ifanc yn bowlio deg nos Wener, 20 Hydref, a braf oedd gweld cynifer yn mwynhau. Mis Tachwedd, yn draddodiadol, yw mis y penwythnos i ffwrdd, ac eleni, rhwng nos Wener 17 a dydd Sul 19 Tachwedd, bydd y clwb yn mynd i Drewern, Henffordd. Mae croeso i bawb o Flwyddyn 7 i Flwyddyn 13.

**Adran Salem** Nos Iau rhwng 6:00 a 7:00 p.m. - 16 a 30 Tachwedd. Croeso i bawb.

## EGLWYS Y CRWYS

Dymuniadau gorau i Mrs Ann Parry sydd wedi symud i Gartref Gofal Heol Don. Rydym yn falch ei bod yn hapus ac wedi ymgartrefu mor dda.

Pob dymuniad da i Mrs Ruth Stephens sydd wedi cael triniaeth yn Ysbyty Llandochau wedi iddi syrthio a thorri ei chlun. Brysiwch wella, Ruth.

Llongyfarchiadau i Alun Tobias ar ennill y Gadair yn Eisteddfod Bancffosfelen yn ddiweddar. Ymlaen i Bontypridd, Alun!

Llongyfarchiadau hefyd i Megan a Mathew Bill ar eu llwyddiant yn Eisteddfod y Cymoedd. Daeth Megan yn ail ar yr unawd offerynnol uwchradd a daeth Mathew yn gyntaf ar unawd Blwyddyn 7-9. Mathew hefyd a enillodd y tlws am y perfformiad mwyaf addawol. Da iawn chi!

Cafodd Y Gymdeithas daith gofiadwy i Frycheiniog o dan arweiniad William a Nesta Tiplady. Ymwelwyd â Chapel y Plough, Coleg Trefeca a Thretŵr. Roedd pawb wedi mwynhau yn fawr iawn.

Diolch i bawb a fu ynghlwm â'r trefniadau.

Cynhaliwyd Gwasanaeth Diolchgarwch nodedig o dan ofal yr Ysgol Sul. Diolch i'r plant a'r ieuenctid, y rhieni a'r athrawon a gymerodd ran. Diolch yn arbennig i Hannah Thomas am baratoi'r gwasanaeth.

**Trefn gwasanaethau mis Rhagfyr, yr oedfaon am 10.30 a 6.00 o'r gloch** :

3 Rhagfyr – Bore: Gwasanaeth Llith a Charol; Hwyr: Mr Arwel Ellis Owen.

10 Rhagfyr – Parchg Dafydd Andrew Jones – gweinyddir y Cymun yn yr oedfa hwyrol.

17 Rhagfyr – Bore: Gwasanaeth Nadolig yr Ysgol Sul; Hwyr: Gwasanaeth Nadolig y Gymdeithas Ddrama.

24 Rhagfyr – dim oedfaon.

25 Rhagfyr – Oedfa Bore'r Nadolig yn Eglwys y Crwys am 10:00 o'r gloch.

31 Rhagfyr – Bore: Parchg Robert Owen Griffiths; Hwyr: dim oedfa.

## EGLWYS DEWI SANT

**Gwasanaeth Diolchgarwch**

Cynhaliwyd ein Gwasanaeth Diolchgarwch eleni fore Sul, 8 Hydref, gyda'r cinio blasus arferol i ddilyn a chyfle braf i gymdeithasu.

**Banc Bwyd Caerdydd**

Dros gyfnod y Diolchgarwch, casglwyd nwyddau ar gyfer y Banc Bwyd.

**Coffi a Chlonc**

Daeth nifer dda ynghyd ar 21 Hydref i gyfarfod cynta'r hydref o Coffi a Chlonc ar gyfer y rhai sydd yn dysgu, wedi dysgu, neu'n siaradwyr Cymraeg rhugl. Bydd y cyfarfod nesa ddydd Sadwrn, 18 Tachwedd, rhwng 10:30 a 12:00, yn Neuadd yr Eglwys, fel arfer.

**Gofal ein Gwinllan**

Nos Fercher, 18 Hydref, ar *Zoom*, cafwyd ail sesiwn y tymor o'r gyfres hon, pan fu Andrew Hawke yn edrych ar fywyd Daniel Silvan Evans, a'r Esgob Wyn Evans yn cloriannu cyfraniad yr offeiriad, diwynydd a bardd, Isaac Williams (1802 – 1856).

**Canolfan Glyd Y Tabernacl**

Yn ystod mis Hydref cymerodd aelodau o Eglwys Dewi Sant eu tro i ofalu am yr elfen bwysig hon o weithgaredd eglwysi Cymraeg Caerdydd.

## EGLWYS GATHOLIG TEILO SANT

Roedd Offeren mis Medi yn gyfle hyfryd i ni ddod at ein gilydd ar ôl bwlch dros wyliau'r haf. Braf oedd gweld John Dymond yn ôl ar ôl cyfnod o salwch. Daliwch i wella John! Ar ôl Offeren mis Hydref cawsom gyfle i fwynhau paned a sgwrs – y tro cyntaf ers cyn Cofid.

Ers 4 Hydref, Gŵyl Sant Ffransis, mae llawer o Gatholigion wedi troi eu golygon at Rufain a'r Synod Fawr sy'n digwydd yno. Mae'r cynulliad yma'n binacl dwy flynedd o waith paratoi ymhob plwyf ac esgobaeth ar bob cyfandir. Yn ôl yn 2021 galwodd y Pab Ffransis ar aelodau'r Eglwys drwy'r byd i ystyried sut rydym yn ufuddhau'n well i orchymyn Crist i garu'n gilydd o fewn yr Eglwys a thu allan iddi. Trefnwyd cyfarfodydd i weddïo a thrafod a chasglwyd yr ymatebion ar bob lefel. A nawr mae cynrychiolwyr o bob gwlad yn cyfarfod gyda'r Pab yn y Synod i drafod y sylwadau sydd wedi dod o bob rhan o'r Eglwys fyd-eang.

Am y tro cyntaf mewn cyfarfod o'r fath, bydd gwragedd a gwŷr profiadol a dysgedig yn ymuno â'r cardinaliaid a'r esgobion, a gallwn weld lluniau ohonynt mewn grwpiau o gwmpas byrddau crwn yn trafod pynciau o bwys yn yr Eglwys. Maen nhw wrthi'n trin gofidiau a phynciau llosg y ffyddloniaid yn y gwahanol wledydd a diwylliannau, a hynny mewn awyrgylch o wrando a gweddïo. Dyma agwedd bwysig o genhadaeth y Pab Ffransis - un sy'n gwrando ac yn gofalu am ei braidd fyd-eang. Gweddïwn y bydd yr Ysbryd Glân yn gwmni iddynt oll.

**26 Tachwedd:** bydd yr Offeren yn Gymraeg ar Sul olaf mis Tachwedd yn Eglwys Teilo Sant, Yr Eglwys Newydd, am 16:30 gyda phaned a sgwrs i ddilyn.

## YR EGLWYS EFENGYLAIDD

**Pregethwr Gwadd**

Pleser mawr yn ddiweddar oedd croesawu Aled Lewis, un o blant yr eglwys, i bregethu ar y Sul. Mae Aled bellach yn athro yn Ysgol Gymraeg Ystalyfera Bro Dur ac yn dad i ddwy ferch fach. Pwyslais Aled yn y bore a'r hwyr oedd pwysigrwydd gweddi a'r fraint o nesáu at Dduw. Atgoffodd ni, wrth gyfeirio at lyfr yr Hebreaid, mai dod at orsedd gras a wnawn wrth weddïo a bod hyn yn rhoi hyder a sicrwydd i ni. Yn y nos atgoffodd ni o weddi Hanna ac fel y bu i Dduw ateb ei gweddi am fab. Cawsom Sul bendithiol a heriol.

**Paned a Sgwrs**

Daeth Ann Morgan o Gaerfyrddin atom yn ddiweddar i rannu rhai o'i myfyrdodau. Soniodd Ann am ryfeddod y corff dynol yn ei holl fanylder anhygoel gan gyfeirio at gywreinrwydd y llaw, y llygad a'r glust. Seiliodd ei sylwadau ar lyfr John Blanchard, *Does God Believe in Atheists?* lle mae'r awdur yn ceisio ateb dadleuon anffyddwyr gan ddadlau'n raslon bod y dystiolaeth am fodolaeth Duw y Creawdwr yn argyhoeddi. Diolch i Ann am achosi i ni unwaith eto ryfeddu at y Creu a'r Creawdwr.

**Ymwelwyr o Oklahoma**

Roedd cynulleidfa fore Sul yn ddiweddar yn fwy lluosog nag arfer. Y rheswm am hyn oedd ein bod yn croesawu criw o ymwelwyr atom o Oklahoma. Mae gan y cyfeillion yma faich arbennig dros Gymru ac wedi ffurfio cysylltiad â rhai o eglwysi'n gwlad. Buont yn dosbarthu taflenni yn y pentref yn sôn am 'Ŵyl Goleuni' fydd yn cael ei chynnal yn ystod yr wythnos yn arwain at Galan Gaeaf, yn ogystal â chreu adnoddau ar gyfer yr achlysur. Cawsom gyfle i gymdeithasu â nhw dros *pizza* a diod nos Lun cyn ffarwelio â nhw wrth iddynt fynd i Gaerfyrddin.




## GŴYL CERDD DANT CAERDYDD 2023

**Dydd Sadwrn 11 Tachwedd 2023**

Coleg Caerdydd a'r Fro, Ffordd Dumballs CF10 5FE




**A dyna ni ...**

Ar ôl misoedd o waith caled, o drefnu, o godi arian, o ymarfer a thynnu gwallt o'n pennau. Mae yma!

Ac i bwy bynnag sy'n dod i'r brig, mae Tlws hyfryd yr Ŵyl i'w weld ar y chwith isod.

Diolch yn fawr iawn i Anthony Evans am ddylunio'r Tlws. WAW! Does dim geiriau i'w ddisgrifio. Mae'n cynnwys ein draig ynghyd â dyfyniad o gerdd groeso Llŷr Gwyn Lewis. Os ydych chi'n meddwl bod y llun hwn yn wych, dylech chi weld y gwreiddiol!

Y cyfan sydd ar ôl i'w wneud yw diolch o galon i bob un ohonoch sydd wedi cefnogi'r Ŵyl bob cam o'r daith. Mae wedi bod yn brofiad gwerth chweil – go iawn! Rydym wedi dod i adnabod cyfeillion newydd, ac mae gan bawb ryw stori i'w dweud, a llawer o atgofion melys. Sawl potel o jin sydd wedi'i hyfed? Sawl cannwyll sydd wedi'i chynnau? Sawl tant sydd wedi'i dorri?

Mae'r gefnogaeth rydym wedi'i chael wedi bod yn amhrisiadwy – boed yn rhodd ariannol, yn eiriau o anogaeth neu'n fenthyg capel i gynnal digwyddiad. Mae 'na bobl sydd wedi rhoi eu hamser am ddim, ac wedi agor drysau eu cartrefi – rydyn ni wedi bod mewn ambell i le anhygoel!

**Diolch enfawr bawb.**

# Bwytai Merch y Ddinas



## Amser Te

**Lowri Haf Cooke**

O mam bach. Sut mae dechrau'r llith hwn? Dwi'n gegrwth… ac mae gen i goblyn o syched. Nawr cyn i chi 'nghwahodd i fewn i ddadebru dros baned, ga' i ofyn yn blwmp ac yn blaen; pa de sydd ar gynnig? Dyna, mae gen i ofn, ydy asgwrn y gynnen y mis hwn... does dim un bag te *Glengettie* i'w ganfod yn y ddinas!

Och a gwae, a gwae ac och. Dwi'n gwbod. Ma' hi'n 'greisis Mistar Picton'. Wedi degawdau o ddeffro ben bore a throi'r tegell ymlaen cyn mynd ati i sawru neithdar y duwiau, mae fy myd i ben i waered ar hyn o bryd, wrth i mi brofi argyfwng gwac-te ystyr. Synhwyrais nad oedd pethe 'cweit reit' ar ddechrau'r hydref pan wynebais fwlch mawr ar silff fy archfarchnad leol. O Lidl, trois at Sainsbury's, a hyd yn oed Waitrose (serch y prisiau) a chanfod nad cyd-ddigwyddiad anffodus oedd y diffyg *Glengettie*. Wel ble arall allwn i droi i gael bwrw fy mol, ond at Twitter, neu wefan X erbyn hyn. Serch yr holl sôn fod y rhwydwaith gymdeithasol ar ei gliniau erbyn hyn, mae'n dal yn 'neuadd bentre' ddigidol i'r Cymry Cymraeg. Yno, diolch i'r drefn, darganfuais eraill, fel fi, sydd ar goll yn y diffeithwch ar hyn o bryd...



Ond oedd 'na obaith o gwbl am ateb i'r cwestiwn mawr? Ydy hi ar ben am byth i gwmni *Glengettie*? Yn ôl y broliant ar y bocs ers blynyddoedd mawr, dyma de sy'n 'ffefryn gyda'r Cymry ers cenedlaethau.' Ymysg y cyntaf i ymateb oedd Rhodri ab Owen; 'O fi'n gweld eisiau @Glengettie_Tea yn ofnadwy! Wedi chwilio ym mhob man amdano!' Yr un profiad gafodd Alun Tudur â minnau; 'Wedi mynd o Lidl ers wythnosau.' Gwilym Dafydd oedd nesa i ymateb i'r hanes; 'Bagiau te neu'r diffyg ohonynt yn dy golofn mis Tachwedd yn @DinesyddCaerdydd Lowri!' (Diolch am y syniad, Gwilym!) A ces ymateb gan bobol y tu hwnt i ffiniau'r brifddinas, yn awgrymu bod yma argyfwng cenedlethol! 'Dwi efo ti ar hyn!' medde neb llai na Geraint Lovgreen. 'Dim *Glengettie* ym Morrisons Caernarfon chwaith. Oedd gen i dipyn o stoc ond mae'n rhedeg yn isel rwan... Dim te arall yn cymharu!' Amen yn wir! Yna, 'Hoff de fy nhad' medde'r cerddor Sioned Webb. 'Ddim wedi pasio'r un angerdd i'w ferch ond deall a chydymdeimlo.'

A dyna ni, ynde. Mae chwaeth pawb yn wahanol – magwyd fy nhad ar *Typhoo*, cyn gweld y goleuni – tra bod eraill yn dotio at de *Tetley,* y *Co-Op* neu *PG Tips*. Ymateb Iestyn Davies i'r 'storom mewn cwpan' oedd, 'mae Paned Gymreig *Murroughs* sy'n cael ei wneud yn Abertawe llawn cystal.' Tase hi ond mor syml â hynny... 'Wedi prynu'r te hwnnw yn y cyfamser,' ymatebais iddo, 'ond dyw'r cyfuniad ddim cystal yn fy marn i. Mae'n honco bost dwi'n gwbod – enw Albanaidd, dail o Kenya ac India, wedi'i baratoi mewn ffatri yng Nghilgwri – ond *Glengettie* yw'r unig 'de â blas Cymreig' sy'n gweithio gyda dŵr Caerdydd i mi.'

Yn wir, mae'n bythefnos erbyn hyn ers i mi orfod palu trwy focs o 80 o fagiau cwmni arall, ac mae gen i ofn fod y profiad hwnnw fel berwi mwd. Arbrofais, yn wir, ag eraill...roedd rhai yn llawer rhy gryf, ac eraill fel pi-pi dryw... gan wneud i mi deimlo fel y *diva* chwedlonol honno, Elen Benfelen. A sôn am gymeriad o 'mhlentyndod, rhaid dyfynnu'r hwyaden Calimero, i ddisgrifio sut ma' pethe heb *Glengettie*; 's'dim blas byw'. Diolch felly am lygedyn o obaith, gan Geoff Cripps, cyn-gadeirydd Theatr na nÓg. Fe dderbyniodd e ebost diweddar gan gwmni Premier yn dweud oherwydd y bu newid ffatrïoedd, na fyddai bagiau te *Glengettie* ar gael ar y farchnad tan fis Rhagfyr. 'Not sure if we can wait that long...' oedd geiriau olaf Geoff, gan ategu fy rhwystredigaeth i!

Ond yn fwyaf diweddar, derbyniais ymateb gan Carys Ifan, hefyd ar Twitter / X. 'Newyddion da o lawenydd MAWR' meddai Carys yn llawn brwdfrydedd, gan rannu llun o focs newydd sbon yr olwg o de *Glengettie*. 'Garej Brynhoffant heddi, yn dilyn sawl mis hebddo!' Wel yn wir. Llamodd fy nghalon, f'ymennydd a 'nhafod. Mae 'na obaith felly o wyrth cyn y Nadolig, i osod y byd nôl yn ei le. Y cwestiwn wrth gwrs yw pwy sydd am drefnu siarabang, taith siopa 'Dolig o Gaerdydd i garej Brynhoffnant?!

Tra'n wynebu'r argyfwng ces gyfle i ystyried y tai te hynny sy'n werth ymweliad yng Nghaerdydd. Ry' ni'n sôn wrth gwrs fan hyn am lefydd sy'n gweini tebot, ac nid 'te tramp', a hynny am bris mwy anrhydeddus na bagiad o de! Ymysg fy ffefrynnau, mae cwmnïau lleol Pettigrew a Waterloo, a thŷ te Barker yng nghanol y dre. Ond cewch chi hefyd baned a chroeso yn Canna Deli, Ffloc, Sparrow a Lab 22, heb sôn am gyfle am glonc yn y Gymraeg gyda Gwilym Dafydd a chriw 'Yr Awr Hapus' yng Nghaffi Cylchfan yr Eglwys Newydd.

Dwi'n hyderus y bydda i nôl i'r arfer fis nesa gydag adolygiad o fwytai'r brifddinas! Yn y cyfamser, ewch i chwilio yng nghefn eich cypyrddau cegin, a cysylltwch â'ch awgrymiadau te – a da chi, croeswch eich bysedd drostom ni, drueniaid y te!

***Gwledd*** **gan Lowri Haf Cooke (Gwasg y Lolfa)**

# Y DIGWYDDIADUR

## Rhagfyr

**Gwener, 1 Rhagfyr**
Cymrodorion Caerdydd. Noson yng nghwmni Arfon Gwilym a Sioned Webb ar y testun ‘Seiniwn Hosanna a’r Plygain’. Trwy gyfrwng *Zoom* am 7.30pm. Y tâl aelodaeth am y flwyddyn yw £10; y pris mynediad i gyfarfod unigol yw £3 (ond yn rhad ac am ddim i aelodau). I dderbyn gwybodaeth ynghylch sut i dalu’r tâl aelodaeth neu’r pris mynediad i gyfarfod unigol, ac i dderbyn y ddolen *Zoom*, anfonwch at cymrodorioncaerdydd@gmail.com. Croeso cynnes i bawb.

**Sadwrn, 2 Rhagfyr**
Taith adar fisol dan arweiniad Eirian a Gwilym Dafydd. Yn cwrdd y tu allan i Ganolfan y Wardeiniaid, Fferm y Fforest, Yr Eglwys Newydd, am 10.30am. Am ddim. Am ragor o wybodaeth, anfonwch at eirianagwilym@gmail.com.

**Llun, 4 Rhagfyr**
Cylch Cinio Cymraeg Caerdydd, yng Ngwesty *New House*, Heol y Ddraenen, Draenen Pen-y-graig (*Thornhill*), Caerdydd, CF14 9UA, am 7.00 ar gyfer 7.30pm. Pris: £28 yr un. Siaradwr gwadd: y cerddor, Geraint Cynan. Croeso cynnes i bawb, yn arbennig i gyfeillion newydd. Am ragor o fanylion, anfonwch at cylchcinioarall@gmail.com.

**Mercher, 6 Rhagfyr**
Merched y Wawr, Cangen Bro Radur. Sgwrs gan Shân Roberts (Siop y Felin) ar y testun ‘Torch Nadoligaidd’, yn Ysgoldy Eglwys Crist, Heol Isaf, Radur, am 7.30pm. Croeso cynnes i aelodau hen a newydd. Am fanylion pellach, cysylltwch â Gwen Emyr (gwen.emyr@gmail.com; 029-2084-8545).

**Iau, 7 Rhagfyr**
Menter Caerdydd. Taith dywys i Gwrt Insole, Llandaf, yn dechrau am hanner dydd. I gofrestru, cysylltwch â Rachel Matthews (rachel@mentercaerdydd.cymru).

**Mawrth, 12 Rhagfyr**
Cymdeithas Ddiwylliannol Eglwys Minny Street. Noson Nadoligaidd yng nghwmni Siân Meinir, am 7.30pm yn festri’r capel (CF24 4ER). Croeso cynnes i bawb.

**Mawrth, 12 Rhagfyr**
Merched y Wawr, Cangen Caerdydd. Noson gerddorol yng nghwmni Joy Aman a Iona Jones, yn Eglwys Fethodistaidd Cyncoed (ar y gornel rhwng Westminster Crescent a Heol Cyncoed) am 7.00pm. Croeso cynnes i aelodau hen a newydd. Am ragor o fanylion, cysylltwch ag Eluned Press (eluned@press0.plus.com; 07761-358755).

**Iau, 14 Rhagfyr**
Menter Caerdydd. Cyflwyniad gan Sioned Webb ac Arfon Gwilym i draddodiadau’r Plygain. Am 7.30pm trwy gyfrwng *Zoom*. Am ddim. I gofrestru, cysylltwch â Rachel Matthews (rachel@mentercaerdydd.cymru).

**Anfonwch fanylion ar gyfer Y Digwyddiadur at**

**Yr Athro E Wyn James**
**JamesEW@caerdydd.ac.uk**
**16 Kelston Road,**
**Caerdydd, CF14 2AJ**
**029 20628754**






# Gwylio’r Geiniog



## Huw Aled Accountants

1. Mae 6 Hydref bob blwyddyn yn ddyddiad pwysig i unigolion hunangyflogedig sy'n bwriadu ailforgeisio. Mae benthycwyr yn aml yn cyflwyno amod bod angen ffigyrau incwm a threth cyfredol arnynt, o gyfnod hyd at y 18 mis diwethaf, felly os ydych chi'n bwriadu ailforgeisio, bydd angen i chi baratoi eich ffurflen dreth ar gyfer 2022-2023 yn gynt na'r dyddiad cau o 31 Ionawr 2024 er mwyn sicrhau y cynigion morgeisio gorau. Ni allwch ddibynnu ar ffigyrau incwm a threth 2021-2022.

   Os nad ydych wedi cyflwyno ffurflen dreth 2022-2023 hyd yn hyn ac ry'ch chi'n bwriadu ailforgeisio yn fuan, rydym yn awgrymu eich bod yn cyflwyno ffurflen dreth 2022-2023 cyn gynted ag y bo modd.

2. Mae gwaith cynyddol timau archwilio y Swyddfa Dreth wedi dod i'r amlwg yn ddiweddar. Byddwch yn ymwybodol bod gan y Swyddfa Dreth ffyrdd o ddarganfod os oes gan unigolyn incwm trethadwy sydd heb ei ddatgan. Er enghraifft, mae unigolion wedi derbyn llythyron yn ddiweddar yn nodi bod y Swyddfa Dreth o'r farn eu bod yn derbyn incwm rhent o dai preswyl.

   Os oes gennych unrhyw incwm sydd heb ei ddatgan, cysylltwch â chyfrifydd a'r Swyddfa Dreth cyn gynted â phosib. Mae datgelu gwybodaeth yn wirfoddol yn helpu'ch achos ac yn debygol o leihau unrhyw gosbau.

3. Rydym wedi nodi mewn rhifynnau blaenorol o *Gwylio'r Geinio*g am gynlluniau'r Llywodraeth i osod isafswm gradd 'EPC' ar dai gosod o C yn hytrach na'r isafswm gradd presennol, sef E, o 2025 ymlaen. Mae'r Prif Weinidog bellach wedi cael gwared o'r cynlluniau hyn. Cafodd y cyhoeddiad ei wneud ochr yn ochr â nifer o gyhoeddiadau eraill, gan gynnwys oedi ar y gwaharddiad ar werthu ceir petrol a diesel newydd o'r dyddiad gwreiddiol 2030 tan 2035.

***Cwestiynau Huw ac Aled:*** *Mae fy mam weddw, oedrannus yn ystyried gwerthu ei thŷ, sydd wedi mynd yn rhy fawr iddi ymdopi, a symud i fflat ymddeol. Mae hi’n hoff iawn o nofelau Richard Osman ac yn edrych ymlaen at fyw mewn cymuned yn llawn pobl o’r un oedran. Pa faterion ariannol y mae angen eu hystyried?*

Mae manteision bywyd i lawer o bobl hŷn o adleoli i fflat ymddeol, gan gynnwys peidio â gorfod cynnal tŷ mawr ac o gael mynediad i ardaloedd cymunedol a chyfleusterau eraill, yn dibynnu ar y safle ymddeol penodol.

Bydd ‘tâl gwasanaethu’ misol rheolaidd yn daladwy er mwyn talu am y costau cymunedol a’r cyfleusterau a ddarperir, yn aml rhwng £500 - £800 y mis. Mewn ychydig flynyddoedd pan nad yw hi bellach yn gallu byw yn y fflat, mae’n bosibl iawn y bydd ei theulu’n gweld bod rhaid gwerthu’r fflat ymddeol ar golled sylweddol, fel sydd wedi digwydd i lawer o deuluoedd yn y blynyddoedd diwethaf.

Dewis arall fyddai ystyried rhentu'r fflat ymddeol. Bydd y gost fisol yn uwch ond nid oes risg o golled ariannol mawr ar ddiwedd y cyfnod o fyw yn y fflat.

*Am fwy o fanylion cysylltwch â ni trwy: Huwaledaccountants.com neu 029 20694524*

# Aelwyd Hamdden

Ym mis Hydref cawsom awr hyfryd yng nghwmni Trystan a Siân Francis. Canodd Trystan ‘Lleucu Llwyd’ ac ymunodd yr aelodau yn y gytgan. Clywsom Siân yn canu ‘Caeau Ŷd’ a ‘Calon Lân’ wedyn. Cydganodd y ddau ‘Y Weddi’, sef addasiad Côr Glanaethwy. Ymunodd yr aelodau i ganu cytgan ‘Moliannwn’, ‘Lawr ar lan y môr’, ‘Sosban Fach’ a ‘Milgi, milgi’. Diolch I’r ddau am roi eu hamser i’n diddanu.

Awr o gymdeithasu dros paned a chacen oedd yr ail gyfarfod, a chyfle i brynu cardiau cyfarchion a benthyg llyfrau Cymraeg.


Ym mis Tachwedd edrychwn ymlaen at gael awr o baratoi at y Nadolig yng nghwmni Ruth Davies, ar fore Mercher, 8 Tachwedd. Yna ar 22 Tachwedd byddwn yn ymweld â’r *Butchers*, Rhiwbeina am bryd o fwyd.


Mae croeso i unrhywun ymuno â’r Aelwyd Hamdden.



***Trystan a Siân Francis***

## Rhif: 237




**Ar Draws**
6. Cantorion o dras rhyfedd yn ffrindiau i Eira Wen (7)
7. Uchel iawn yw dyhead y coed (5)
9. Torri glo yn chwim ar yn ail â glanhau (5)
10. 'Aeth clychau Cantre'r Gwaelod ----- ----- dan y dŵr' (JJW) (1'1, 5)
12. Gwaith dwylo mewn geiriau (11)
14. Anghyfiawnder tawel ar brydiau yn troi'n orchestion (11)
18. Mae'n wir yn Lloegr a'r haul hefyd yn cefnu'n annifyr (7)
19. 'Hyfryd eiriau'r Iesu, ----- ynddynt sydd' (HEL) (5)
21. 'Yn y dwys ddistawrwydd, ----- air, fy Nuw' (cyf WNW) (5)
22. Cymryd y trem ola' ar y bydol (7)

**I Lawr**
1. Lle i weithiwr metel rhyfedd (5)
2. Pan â chwant yn ffrwydrol (6)
3. Cywasgu'r nionod yw'r amcan (3)
4. '----- a thrugaredd yn ddiau a'm canlynant holl ddyddiau fy mywyd' (Salmau- BWM) (6)
5. Yn hyf cawn chwifio……… (7)
8. ……… i greu peth cynnwrf wrth areithio (7)
11. Erys hud rywsut i'r ffyddiog (7)
13. Amddiffynfa 24 awr i'r ddinas (7)
15. Ymbil yr enwogion am fwynhad (6)
16. 'Rhyfedd ----- Duw Ddisgwyliodd wrthym cyd' (MH) (6)
17. Lle rhyfedd i falchedd fod Yw teiau ar y -----' (EE) (5)
20. Ffeindio rhiant mewn amgylchiadau cystadleuol (3)

**Enillydd Croesair Rhif 235**
**Emrys Griffiths, Rhosgadfan**

**Atebion Croesair Rhif 235**

**Ar Draws:** 7. Esgair 8. Cyfres 10. Lladrata 11. Oerni 12. Siap 13. Addysg 17. Masgl 18. Awyr 22. Smala 23. Gwancus 24. Arolwg 25. Sinema
**I Lawr:** 1. Cenllysg 2. Y gadlas 3. Sidan 4. Cydoesi 5. Eryri 6. Esgid 9. Haeddu gwg y 14. Safadwy 15. Gwacter 16. Grisial 19. Ysgall 20. Tafol 21. Saffir

Danfonwch eich atebion at Rhian Williams
erbyn 5 Rhagfyr, 2023
22 Heol Cae Rhys, Rhiwbeina,
Caerdydd, CF14 6AN
Gwobr: Tocyn llyfr £10



# AGOR Y LLYFR
## Cyngor Eglwysi Cymraeg Caerdydd

Mae aelodau tîm Agor y Llyfr Caerdydd wedi dechrau'n ôl wrth eu gwaith! Roedd hi'n hyfryd cael cyflwyno stori o'r Beibl i ddisgyblion Ysgol Glan Morfa, Ysgol Gwaelod-y-garth – ac, am y tro cyntaf, Ysgol y Berllan Deg.

Un o'r heriau cyntaf a ddaw mewn ysgol yw dysgu cyfrif! Rhoddwyd cyfle i'r disgyblion, yn arbennig felly y rhai ieuengaf, ymarfer eu gallu i gyfrif i fyny at 10 wrth i ni gyflwyno hanes y 10 gwahanglwyf yn dod at Iesu i geisio iachâd. Cafodd rhai o'r disgyblion gyfle i gymryd rhan wrth wisgo ac ymddangos ar y llwyfan fel cleifion. Deg yn cael eu gwella gan Iesu, ond un yn unig yn dod yn ôl ato i ddiolch. Gan ein bod yng nghanol cyfnod gwasanaethau Diolchgarwch, roedd yr hanes yn pwysleisio'r angen i bawb ddiolch am fendithion bywyd.

Tybed pa stori fydd y nesaf! Os hoffech fod yn rhan o'r gwaith, dewch i gysylltiad. Wrth i fwy o bobl ymuno bydd modd ymweld â mwy o ysgolion, a chyflwyno hanesion am Dduw ac Iesu mewn ffordd fywiog i hyd yn oed mwy o blant oedran cynradd.

## Mis Prysur yng Nghwmni'r Mentrau

*Chwilio am rywbeth i'w wneud dros yr wythnosau nesaf? Beth am gymryd cip ar galendr Menter Caerdydd a Menter Bro Morgannwg?*

**Mewn Tiwn**
Bydd Aneirin Jones yn dychwelyd i Ganolfan Beulah, Rhiwbeina, ddydd Llun, 27 Tachwedd i'n diddanu ar y ffidil. Bydd paned ar gael cyn y gyngerdd a'r cyfan yn rhad ac am ddim. Edrychwn ymlaen at groesawu'r gantores a chyfansoddwraig o sir Benfro, Lowri Evans, ar fore Llun, 18 Rhagfyr i ddathlu'r Nadolig.

**Ymweliadau/Teithiau Tywys**
Mae ein taith dywys i Arddangosfa *Artes Mundi* bellach yn llawn ond mae digon o lefydd ar gael ar ein hymweliad ag adeilad hardd Cwrt Insole yn Llandaf. Dyddiad y daith yw bore Iau, 7 Rhagfyr a'r gost yw £3. Ewch i'r wefan i gofrestru: https://mentercaerdydd.cymru/cy/oedolion

**Sesiynau Pampro *Neal's Yard Remedies***
Hoffech chi drio cynnyrch harddwch naturiol *Neal's Yard Remedies* yn rhad ac am ddim? Cynhelir gweithdy dros *Zoom*, nos Sul, 26 Tachwedd, a sesiwn wyneb yn wyneb yng Nghlwb Tennis yr Eglwys Newydd fore Gwener, 1 Rhagfyr. Yn ymuno â ni bydd yr arbenigwraig Kelly Lewis fydd yn rhannu samplau i'w defnyddio yn y sesiynau ac yn cynnig cyngor ar ddewis olewon hanfodol, eli croen a chynnyrch naturiol.




**Sgwrs y Mis**
Dr Gethin Rhys Thomas, Uwch Ddarlithydd Sŵoleg ym Mhrifysgol Abertawe, fydd yn mynd â ni ar 'Daith i Fyd y Parasitiaid', nos Iau, 16 Tachwedd. Mae parasitiaid yn aml yn cael eu hanwybyddu pan fyddwn yn ystyried bioamrywiaeth ecosystemau, er eu bod yn chwarae rôl hanfodol wrth gynnal cydbwysedd ecolegol. Ymunwch â ni ar *Zoom* i ddysgu mwy. https://mentercaerdydd.cymru/cy/oedolion

**Plant**
Wedi hanner tymor prysur o weithgareddau, bydd ein sesiynau Amser Stori a'r clybiau i blant cynradd yn parhau hyd y Nadolig. Cofiwch am ein Gweithdai Gwyddoniaeth gyda *SparkLab*, ddydd Llun, 6 Tachwedd yn Ysgol Pwll Coch a dydd Llun, 20 a dydd Mercher, 22 Tachwedd yn Ysgol Pencae. Mae'r niferoedd yn gyfyngedig felly archebwch le i'ch plentyn nawr!

**Gigs y Fro**
Mae pob tocyn wedi'i werthu ar gyfer cyngerdd *Pedair* yn y Bont-faen ar ddechrau Rhagfyr. Ond cofiwch fod modd prynu tocynnau ar gyfer gig *Mynediad am Ddim* (nos Sadwrn, 27 Ionawr), ar wefan y Memo: https://memoartscentre.co.uk/cy/Shows/mynediad-am-ddim/

**Laffwyl**
Chwilio am rywbeth i godi calon? Beth am fynd draw i dafarn Parc Fictoria, nos Iau, 30 Tachwedd i fwynhau noson stand yp? Bydd yr MC Aled Richards yn cyflwyno'r digrifwyr Daniel Glyn, Eleri Morgan a Josh Pennar. Mae tocynnau (£8) ar gael ar ein gwefan. https://mentercaerdydd.cymru/cy/oedolion

**Siaradwyr Newydd**
Wedi llwyddiant y digwyddiad yn Sain Ffagan ym mis Medi, byddwn yn cydweithio â'r Amgueddfa a Dysgu Cymraeg Caerdydd i gynnal mwy o sesiynau anffurfiol i ddysgwyr bob tymor. Beth am ymuno â ni ar fore Iau, 30 Tachwedd (10:00-12:00) i ddysgu mwy am draddodiadau'r Nadolig yng Nghymru, i chwarae gemau a sgwrsio? I gofrestru, ewch i: https://forms.gle/E2SLUJH4vuEwTG4i7
Cofiwch hefyd am y bore coffi ar *Zoom* bob dydd Gwener ola'r mis am 10:30.

**Cyfarfodydd Blynyddol**
Mae croeso i chi ymuno â staff ac aelodau Bwrdd y ddwy Fenter ar gyfer ein cyfarfodydd blynyddol wrth i ni fwrw golwg yn ôl dros flwyddyn brysur o waith ac edrych ymlaen at y dyfodol.
**Menter Caerdydd:** nos Fawrth, 28/11/23 – 6:00yh yn yr Hen Lyfrgell, Yr Ais;
**Menter Bro Morgannwg:** nos Fawrth, 5/12/23 – 6:00yh, lleoliad i'w gadarnhau.
**I gofrestru:**
post@mentercaerdydd.cymru
Gwefan: mentercaerdydd.cymru / menterbromorgannwg.cymru
Facebook: @m.caerdydd / @MIBroMorgannwg
https://www.instagram.com/mentercaerdydd/ https://www.instagram.com/menterbromorgannwg/
E-bost / Ffôn:
post@mentercaerdydd.cymru / 029 2068 9888